Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Cafcass Cymru

Leading Social Services in Wales
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

Canllawiau Arfer:

Plant a gaiff eu hildio i'w mabwysiadu



Cynnwys:

Tudalen 3: Trosolwg, geirfa

Tudalen 4: Cyflwyniad

Camau Gweithredu i Asiantaethau Mabwysiadu

Page 5: Cwnsela

Tudalen 6: Asesiad

Tudalen 10: Cymorth

Tudalen 11: Caniatâd

Tudalen 13: Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol

Tudalen 14: Camau gweithredu ynghlwm â CAFCASS Cymru

Tudalen 15: Lleoli o dan 6 wythnos oed

Tudalen 16: Gwybodaeth Atodlen 2

Tudalen 17: Hysbysiadau i CAFCASS Cymru

Tudalen 20: Y gallu i roi caniatâd

Atodiadau

Tudalen 21:	Atod.1:	Llif gwaith
Tudalen 22:	Atod.2:	Rhoi gwybod i'r tad geni (biolegol)
Tudalen 23:	Atod.3:	Cymhwysedd o ran rhoi cydsyniad
Tudalen 24:	Atod.4:	Llythyr 1 at CAFCASS: Hysbysiad o blentyn sydd wedi'i ildio
Tudalen 26:	Atod.5:	Llythyr 2 at CAFCASS: Cydlofnodi ffurflenni cydsyniad
Tudalen 27:	Atod.6:	Llythyr 3 at CAFCASS: Anallu i lofnodi ffurflen gydsyniad
Tudalen 28	Atod.7:	Caniatâd uwch: cydlofnodi
Tudalen 29	Atod.8:	Profforma Atodlen 2
Tudalen 31:	Atod.9:	Gwybodaeth ar gyfer Mam Geni (Mam fiolegol)
Tudalen 37	Atod.9a:	Gwybodaeth am y Tad Geni (biolegol)
Tudalen 44	Atod.10:	Datganiad 'ddim am gael ei hysbysu'
Tudalen 39	Atod.11:	Cytundeb ar gyfer plentyn o dan 6 wythnos oed.

Trosolwg o'r Canllaw

Diben y canllaw hwn yw rhannu arfer gorau gyda staff awdurdodau lleol / asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol a Cafcass Cymru o ran achosion sy'n ymwneud â phlant a gaiff eu hildio[1] i'w mabwysiadu. Pan fydd rhiant yn mynd at asiantaeth ac yn nodi eu bod yn dymuno lleoli eu plentyn i gael ei fabwysiadu (ei ildio) mae nifer o ffactorau'n dod i rym er mwyn sicrhau bod y rhiant yn cael ei hysbysu'n briodol ynghylch y broses ac yn cael ei gefnogi gyda'i benderfyniad.

Mae'r canllaw hwn yn cynnig gwybodaeth am y canlynol:

- Rhwymedigaethau cyfreithiol Asiantaethau Mabwysiadu a Swyddogion Achosion Teuluol ar gyfer Cymru Cafcass Cymru, fel y nodir mewn deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau statudol perthnasol.
- Y gweithdrefnau ar gyfer cael cydsyniad lleoli ar gyfer mabwysiadu i fabanod a gaiff eu hildio o dan Adran 19 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002.
- Y gweithdrefnau ar gyfer cael cydsyniad ymlaen llaw ar gyfer mabwysiadu dan Adran 20 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

Geirfa Cyfeiriadau Cyfreithiol a Thalfyriadau

Gydol y ddogfen defnyddir y termau a'r talfyriadau canlynol:

Asiantaeth Fabwysiadu	Asiantaethau mabwysiadu awdurdodau lleol ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol
Gwarcheidwad	Gwarcheidwad(aid) cyfreithiol ewyllysiol a gwarcheidwad(aid) arbennig[2]
Swyddog	Unrhyw ymarferydd Cafcass Cymru a benodir i rôl Swyddog Achosion Teuluol ar gyfer Cymru o dan Reoliad 20 Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru)
Adrannau	Yn cyfeirio at adrannau o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (DMPh 2002).
RhAM	Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005
Canllaw Statudol	Canllawiau Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005
CAD	Canllaw Arfer Da Gweithio gyda Rhieni Biolegol (Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol/GMC)

[1] Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd statudol i ymateb i gais gan riant neu warcheidwad i'w plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu, a dylid sefydlu proses ar wahân i fwrw ymlaen â hyn, o leiaf yn y camau cychwynnol, y tu allan i'r broses Achosion Gofal.
[2]Cofiwch, mewn achosion pan fo gorchymyn gwarchodaeth arbennig mewn grym, rhaid cael cydsyniad i fabwysiadu gan y rhieni biolegol a'r gwarcheidwaid arbennig neu rhaid i'r llys weinyddu gyda chydsyniad y rhieni biolegol a'r gwarcheidwaid arbennig. Gweler adrannau 19, 20, 52 a 144 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ac 14C(2)(b) Deddf Plant 1989

Cyflwyniad

Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd statudol i ymateb i gais gan riant neu warcheidwad i'w plentyn gael ei fabwysiadu. Mae'r broses hon wedi'i nodi ym **Mhennod 3 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a Rhan 3 Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005.**

Ers i Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru gael ei sefydlu mae rhai swyddogaethau asiantaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael eu dirprwyo i ac yn cael eu darparu trwy'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol perthnasol yn unol â 'Chyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015'. Gall yr ystod o wasanaethau a ddarperir trwy bob gwasanaeth rhanbarthol amrywio a bydd angen i bob ymarferydd sy'n rhan o'r broses hon esbonio pa elfennau o swyddogaethau'r asiantaethau mabwysiadu a ddarperir gan y gwasanaeth rhanbarthol a pha rai sy'n parhau gyda'r awdurdod lleol. Felly, byddai cyfathrebu da a chydweithio agos rhwng yr asiantaeth fabwysiadu ranbarthol a'r awdurdod lleol yn hanfodol.

Bydd gweithio ar gais i blentyn gael ei fabwysiadu yn heriol i ymarferwyr ar y sail y bydd buddion gorau'r rhan fwyaf o blant yn cael eu gwireddu drwy gael eu magu gan eu rhieni. Bydd yn bwysig pennu'r rhesymau pam fo'r rhiant/rhieni yn dymuno ildio'i/u b/plentyn i gael ei fabwysiadu ac i ystyried eu dymuniadau yn ofalus drwy broses o gwnsela a rhannu gwybodaeth. (Gweler yr adrannau isod ar gwnsela ac asesu).

Drwy gydol y broses hon bydd yn parhau'n bwysig i:

- Roi lles a buddion gorau'r plentyn flaenaf;
- Sicrhau fod cyn lleied o oedi â phosib o ran sicrhau cynllun dyfodol parhaol y plentyn, ac felly, bod atgyfeiriadau i Cafcass Cymru, yr Asiantaeth Fabwysiadu Ranbarthol ac, os oes angen, Cais am Orchymyn Lleoli, ynghyd â chwblhau'r holl ddogfennau angenrheidiol yn cael eu gwneud mewn modd amserol;
- Cynnig gwasanaeth cwnsela[1] effeithiol i'r rhiant/rhieni ynghylch y penderfyniad
- Rhoddir ystyriaeth glir i allu'r rhiant/rhieni i wneud y penderfyniad gan gynnwys eu gallu i ddeall goblygiadau gydol oes eu penderfyniad
- Bod y rhiant/rhieni yn gwbl ymwybodol o'u hawliau a'u dewisiadau gydol y broses o ran y plentyn;
- Bod y Gweithiwr Cymdeithasol Gofal Plant yn parhau mewn cysylltiad â'r rhiant/rhieni *gyhyd ag y bo modd* (yn y camau cynnar hyn) i 'ddod i adnabod' y rhiant/rhieni, er mwyn gallu darparu gwybodaeth i'r plentyn yn ddiweddarach yn ei fywyd (mae hyn yn arbennig o bwysig gan nad yw rhai rhieni'n dymuno cael fawr o gysylltiad â'r Gwasanaethau Plant ac mae angen iddynt ddeall bod eu mewnbwn yn cael ei ystyried yn bwysig i'r plentyn wrth iddynt dyfu'n oedolion)
- Ond, gall y gweithiwr cymdeithasol gofal plant gyfarwyddo neu gyfeirio'r rhiant biolegol at ymarferydd neu asiantaeth arall a allai ddarparu cymorth ymarferol neu emosiynol priodol yn ystod y cam hwn
- Drwy gydol y broses, mae'n hanfodol bod y rhieni biolegol yn cael gwybodaeth ysgrifenedig i'w helpu i ddeall y broses ac ystyr mabwysiadu ar gyfer eu plentyn.

Ceir siart llif, sy'n amlinellu'r prosesau a ddisgrifir er mwyn hysbysu CAFCASS Cymru, yn y canllawiau hyn yn Atodiad 1.

Camau Gweithredu i Asiantaethau Mabwysiadu

Er bod cwnsela'n ofyniad o fewn rheoliadau mabwysiadu fel man cychwyn ar gyfer gwaith a wneir gyda rhieni biolegol sy'n ystyried ildio'u plentyn i'w fabwysiadu, mae'r canllaw hwn hefyd yn cydnabod yr angen i ddechrau deall ac asesu'r amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad hwn ac felly mae'r elfennau hyn o'r gwaith yn rhedeg ar y cyd.

CWNSELA

Dylid cynnig cwnsela cyn gynted â phosibl yn dilyn yr atgyfeiriad, a hynny gan ymarferydd profiadol sydd â gwybodaeth a sgiliau yn y maes mabwysiadu, a dylai gynnwys trafodaeth am y materion a fydd yn codi yn sgil mabwysiadu i'r rhiant/gwarcheidwad ac i'r plentyn. Mae'r gweithiwr sy'n darparu'r cwnsela hwn fel arfer yn annibynnol ar y gweithiwr cymdeithasol ar gyfer y plentyn; dylid atgyfeirio felly at yr asiantaeth fabwysiadu ranbarthol a bydd gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu profiadol yn cael ei ddyrannu i ymgymryd â'r gwaith hwn

Mae'r cyfeiriadau at gwnsela yn ddeublyg: o fewn y rheoliadau mabwysiadu mae cwnsela yn cyfeirio at y ddyletswydd statudol gan awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth ond mae dyletswydd hefyd ar weithwyr proffesiynol i sicrhau bod rhieni biolegol sy'n ceisio lleoli eu plant i'w mabwysiadu yn cael cymorth emosiynol ac ymarferol perthnasol – gweler adran 4 isod.

Cwnsela fel dyletswydd i ddarparu gwybodaeth

Dylai gwybodaeth am fabwysiadu y mae'n rhaid ei darparu i'r rhiant/rhieni gynnwys y canlynol:

- Rhwymedigaethau mabwysiadu, sydd yn rhai gydol oes i'r plentyn a'r teulu/rhieni biolegol, (gweler Adran 67 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002)
- Canlyniadau cyfreithiol rhoi cydsyniad i leoli ar gyfer mabwysiadu (**Adran 19**); caniatâd ymlaen llaw ar gyfer Gorchymyn Mabwysiadu yn y dyfodol (**Adran 20**); tynnu'r cydsyniadau hyn yn ôl; effaith gyfreithiol mabwysiadu ei hun; y dewis o nodi nad ydynt am gael eu cynnwys mewn achosion yn y dyfodol ar ôl i Adran 19 a 20 gael eu cwblhau
- Bod rhieni biolegol yn cadw'r hawl i newid eu meddwl a thynnu eu cydsyniad yn ôl nes bod cais am Orchymyn Mabwysiadu wedi'i wneud i'r llys
- Mater cyswllt, yn enwedig cyswllt ar ôl i'r plentyn gael ei leoli ar gyfer mabwysiadu;
- Eu dymuniadau a'u teimladau am fagwraeth grefyddol a diwylliannol y plentyn
- Yr angen i'r Awdurdod Lleol ddarparu 'Llythyr Bywyd Diweddarach' a Llyfr Stori Bywyd i'r plentyn a cheisio cynnwys y rhiant/rhieni wrth gynorthwyo gyda hyn (darparu gwybodaeth, lluniau ac ati) gan gynnwys gwybodaeth am y tad geni (os nad yw'n fodlon rhannu pwy ydyw, efallai y bydd yn dal i fod yn fodlon rhannu rywfaint o wybodaeth fel edrychiad, diddordebau, ethnigrwydd).
- Dealltwriaeth gan y rhiant o unrhyw faterion iechyd hysbys/hanes meddygol y teulu a allai fod yn berthnasol i'r plentyn - boed yn gorfforol, meddyliol neu emosiynol

- A yw'r rhiant/rhieni am fod yn rhan o broses baru gan gynnwys a yw'r rhiant/rhieni yn dymuno/yn barod i gwrdd â darpar fabwysiadwyr y plentyn
- Gwybodaeth am hawliau'r plentyn i gael gwybodaeth am ei rieni biolegol ar ôl iddo droi'n 18 oed, a goblygiadau posibl hyn iddyn nhw fel y rhieni;
- Rôl Cafcass Cymru o ran sicrhau y rhoddir cydsyniad diamod a bod ganddynt ddealltwriaeth lawn;
- Argaeledd (darparu manylion) gwybodaeth a chymorth annibynnol i'r rhiant/rhieni a'u teulu (gallai hyn fod drwy gyfeirio neu atgyfeirio at wasanaeth cymorth priodol).
- Rhoi gwybodaeth ysgrifenedig am y broses fabwysiadu. [Gweler Atodiad 7 ynghlwm: Plant a gaiff eu hildio i'w Mabwysiadu, Gwybodaeth i rieni biolegol].

ASESIAD A CHYNLLUNIO GOFAL

Asesu'r Rhieni Biolegol

Wrth asesu'r cais gan y rhiant biolegol, dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol gofal plant sy'n gweithio gyda'r rhiant/gwarcheidwad sicrhau ei fod:

- Yn deall y rheswm/rhesymau pam bod y rhiant/gwarcheidwad yn dymuno ildio'r plentyn i'w fabwysiadu
- Ystyried sefyllfa ac amgylchiadau cyffredinol y rhiant/gwarcheidwad;
- Yn ymwybodol o sefyllfa'r tad biolegol (gweler hefyd Adran 3: y Tad Biolegol)
- Yn ymwybodol o unrhyw ofynion cyfathrebu gan gynnwys o ganlyniad i anabledd corfforol neu ddysgu, neu o'r Saesneg fel ail iaith
- Yn ymwybodol o unrhyw broblemau a allai fod gan y rhiant/rhieni o ran sgiliau llythrennedd;
- Yn nodi unrhyw faterion diwylliannol
- Yn gwybod am unrhyw anableddau corfforol neu ddysgu sy'n effeithio ar eu hamgylchiadau;
- Yn cydnabod unrhyw faterion mewnfudo
- Yn nodi unrhyw faterion eraill a allai ymddangos i'r ymarferydd yn rhai perthnasol

Y Tad Geni (Biolegol)

- **Os bydd y Cyfrifoldeb Rhiant (CRh) gan y tad biolegol,** bydd angen ei gydsyniad i leoli'r plentyn i'w fabwysiadu. Nid oes angen cydsyniad tad geni sydd heb CRh er mwyn i leoliad mabwysiadu fynd rhagddo, ond mae angen ystyried hyn yn ofalus iawn wrth feddwl am hawl y plentyn i 'fywyd teuluol' o fewn egwyddorion deddfwriaeth Hawliau Dynol. Mae'r gyfraith yn caniatáu mabwysiadu 'llwybr carlam' gyda chydsyniad pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant, felly mewn rhai achosion, y fam yn unig.
- **Pan fo'r fam yn gwrthwynebu hysbysu** tad neu berthnasau'r plentyn, dylid ystyried ei hawl hi i fywyd preifat gael ei barchu ond gellir tarfu ar hynny os ystyrir hynny yn angenrheidiol er mwyn diogelu budd gorau'r plentyn.

- **Os yw'r rhieni biolegol yn briod**, bydd CRh gan y tad biolegol yn awtomatig. Os nad yw'r fam yn briod â'r tad biolegol, dylai'r ymarferydd wirio tystysgrif geni'r plentyn i weld a yw'r tad biolegol wedi cael cyfrifoldeb rhiant yn sgil cael ei enwi ar dystysgrif geni'r plentyn.

- Dylai'r ymarferydd geisio, os yw'n bosibl, ganfod hunaniaeth y tad gan y fam eni, gan gynnwys ei gyfeiriad, ei ddymuniadau a/neu deimladau hysbys, os yw'n ceisio caffael CRh ac o'i gael, unrhyw ran y dymuna ei chwarae yn y broses.

- Os bydd y fam enedigol yn gwrthod datgelu pwy yw'r tad nad sy'n meddu ar CRh, rhaid i'r Asiantaeth Fabwysiadu werthuso a fyddai peidio â hysbysu ac ymgynghori â'r tad a'r teulu ehangach er budd gorau'r plentyn. Dylid gwahodd y fam i drafod goblygiadau hysbysu tad y plentyn ai peidio, iddi hi ac i'r plentyn. Lle bo'n bosibl, dylai'r ymarferydd gasglu manylion am gefndir y tad a chefndir ei deulu. Dylai'r Asiantaeth Fabwysiadu hefyd geisio nodi a oes unrhyw faterion teuluol neu gymunedol a allai effeithio ar benderfyniad y fam, gan gynnwys unrhyw bryderon a allai fod ganddi ynghylch sut y gallai effeithio ar ei theulu ehangach

- Dylid ystyried rhesymau'r fam a dylai'r Asiantaeth Fabwysiadu ofyn am gyngor cyfreithiol gyda'r bwriad i bennu a ddylid gofyn am arweiniad gan y llys. Dylai'r Asiantaeth Fabwysiadu ofyn am gyngor cyfreithiol ym mhob achos lle

    - mae'r fam yn gwrthwynebu hysbysu tad a nodwyd,
    - mae'r fam yn gwybod pwy yw'r tad ond yn amharod i ddatgelu'r wybodaeth honno,
    - mae rheswm dros amau honiad y fam nad yw hunaniaeth y tad yn hysbys
    - mae'r fam yn gwrthwynebu unrhyw hysbysiad i'r tad a/neu ei deulu

- Ni ddylid cynnig sicrwydd i riant yn ystod yr ymweliad/au gwaith cymdeithasol na chaiff y tad a/neu ei deulu estynedig eu hysbysu o enedigaeth y plentyn.

  Lle mae'r fam yn parhau i wrthod datgelu, a thaw hi yw'r unig un sy'n gwybod pwy yw'r tad, yna ni ellir ac ni ddylid cymryd unrhyw gamau pellach i'w gorfodi i ddarparu'r wybodaeth.[3] Fodd bynnag, dylid annog mam i ddatgelu pwy ydyw neu roi mwy o fanylion am y tad tybiedig. Ni ellir derbyn cyfrif y fam ar yr olwg gyntaf ac mae angen ei ystyried yn ofalus o ran ei gywirdeb a dylid ymdrechu i ymchwilio a chanfod mwy o wybodaeth o gofnodion achos a chan y fam ynghylch y tad i weld a ellir sefydlu pwy ydyw[4].

- **Cynnwys y Tad Biolegol heb Gyfrifoldeb Rhiant:** Man cychwyn yr Asiantaeth Fabwysiadu yw y dylid hysbysu tad heb CRh am fodolaeth ei blentyn. Oni bai bod amgylchiadau eithriadol i'r gwrthwyneb, dylai'r Asiantaeth Fabwysiadu wneud

[3] Re L (Mabwysiadu: Cysylltu â'r Tad Naturiol) [2007] EWHC 1771
[4] Re L (Adoption: Contacting Natural Father) [2007] EWHC 1771

ymholiadau gyda'r bwriad o ganfod pwy yw'r tad.[56]

- Os daw enw'r tad biolegol yn hysbys, dylai'r ymarferydd, ynghyd â'r Rheolwr Tîm, benderfynu os yw'n gyson â lles y plentyn, p'un a ddylid darparu gwybodaeth a chwnsela i'r tad, a chadarnhau a yw'n dymuno caffael CRh a/neu Orchymyn Trefniadau Plentyn. Os yw'r awdurdod lleol/asiantaeth fabwysiadu yn bwriadu peidio â hysbysu'r tad, dylent wneud cais i'r Llys i gael cymeradwyo eu penderfyniad[7]. Dylid nodi, er bod lles y plentyn yn ffactor pwysig wrth benderfynu a ddylid derbyn cais y fam am gyfrinachedd ai peidio, nad lles y plentyn yw'r prif bryder i'r awdurdod lleol neu'r llys wrth benderfynu a ddylid derbyn ei chais ai peidio. Nid yw penderfyniad ynghylch hysbysiad yn benderfyniad sy'n ymwneud â mabwysiadu plentyn o dan adran 1 DMPh 2002 nac yn benderfyniad sy'n ymwneud â magwraeth plentyn o dan adran 1 Deddf Plant 1989[8]

- Pan fydd y fam yn gofyn am gyfrinachedd, bydd angen i'r Asiantaeth Fabwysiadu benderfynu'n gynnar iawn a ddylid gwneud cais i'r llys i bennu a ddylid hysbysu ac ymgynghori â'r tad neu'r perthnasau tybiedig ai peidio. Bydd achosion lle, gan gymhwyso'r egwyddorion a grynhoir o fewn **Atodiad 2**, y gall yr Asiantaeth Fabwysiadu fod yn glir iawn nad oes angen gwneud cais ac y gellir cynllunio ar gyfer lleoli ar sail cydsyniad y fam i fynd rhagddo. Ond gydag unrhyw achos lle mae hynny'n llai amlwg, dylid cyflwyno cais fel nad yw problemau sy'n ymwneud â diffyg hysbysu yn codi pan fydd achos mabwysiadu yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach.

Os yw'r Asiantaeth Fabwysiadu yn ansicr a ddylid hysbysu tad sydd naill ai â chyfrifoldeb rhiant neu hebddo, neu os oes unrhyw amheuon ynghylch pwy yw'r tad, dylai'r asiantaeth wneud cais i'r llys o dan Reol FPR 14.21 i ofyn am arweiniad ynghylch sut i fwrw ymlaen.

Dylid gwneud y cais o dan Ran 19 y Rheolau Gweithdrefnau Teuluol (FPR 2010), gan nad oes ffurflen ragnodedig ac mae'n annhebygol y bydd unrhyw anghydfod sylweddol ynghylch ffeithiau'r achos. Y ffurflen gais briodol fydd Ffurflen FP1 (Cyfarwyddyd Ymarfer 5A). Dylid enwi'r fam fel ymatebydd i'r cais.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid gwneud gorchymyn sy'n awdurdodi'r ALl i beidio â hysbysu tad neu deulu ehangach. Os oes gan dad gyfrifoldeb rhiant, dim ond mewn amgylchiadau hynod eithriadol y dylid gwneud gorchymyn. Bydd y fantol yn aml yn disgyn o blaid hysbysu, ond rhaid gwneud penderfyniadau yn unol â ffeithiau'r achos

Tadau Biolegol Sydd Yn Caffael Cyfrifoldeb Rhiant: Pan fo tad biolegol yn caffael CRh a bod y fam eisoes wedi cydsynio i'r mabwysiadu, a bod y plentyn wedi ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu, (dan Adran 19, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002), ystyrir bod y tad hefyd wedi cydsynio i'r plentyn gael ei leoli ar gyfer mabwysiadu.[9]

---

[6] Re C (plentyn) (mabwysiadu: dyletswydd awdurdod lleol) [2007] EWCA Civ
[7] Awdurdod Lleol v JK & Anor [2021] EWHC 33 (Fam)
[8] A, B ac C (Mabwysiadu: Hysbysu Tadau A Pherthnasau) [2020] EWCA Civ 41
[9] A.52(9) a (10), DMPh 2002

- Pan ddaw'r Asiantaeth Fabwysiadu yn ymwybodol bod tad wedi caffael CRh yn yr amgylchiadau uchod, dylid cysylltu â'r tad ynghylch ei ddymuniadau a'i deimladau o ran y trefniadau gofal ar gyfer ei blentyn. Os yw'r tad yn dymuno parhau â'i gydsyniad i leoli'r plentyn ar gyfer mabwysiadu, dylai dderbyn cwnsela yn unol ag adran 1 uchod.

Aelodau estynedig o'r teulu

Nid yw'r egwyddor "ni fydd unrhyw beth arall yn ddigon da" o angenrheidrwydd yn berthnasol i achosion mabwysiadu na chânt eu herio lle mae rhieni wedi mynegi dymuniad i fabwysiadu y tu allan i'r teulu biolegol. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i archwilio'r holl ddewisiadau lleoli realistig ar gyfer plentyn cyn pennu cynllun mabwysiadu. O'r herwydd, dylai ymarferwyr roi ystyriaeth i leoli'r plentyn gyda'r teulu estynedig cyn mynd ati i leoli plentyn â mabwysiadwyr posibl. Mae'r ffactorau a nodir uchod yn dilyn penderfyniad y Llys Apêl yn *Re A (Mabwysiadu: Hysbysu'r Tad*au *a Pherthnasau*) yr un mor berthnasol i aelodau estynedig o'r teulu.

Dylai'r Asiantaeth Fabwysiadu drafod â'r rhiant/rhieni/gwarcheidwad(aid): safbwyntiau tebygol y teulu estynedig (neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd ac ati) a chanlyniadau eu bod yn dod i 'wybod' am neu 'beidio â gwybod am' enedigaeth y plentyn a'r cynlluniau ar gyfer mabwysiadu.

Mae dymuniadau a theimladau'r rhieni o ran dyfodol eu babi yn debygol o gario grym sylweddol wrth werthuso lles y plentyn, ond nid hwy yw'r unig ffactorau i'w hystyried ac ni all yr Asiantaeth Fabwysiadu sicrhau y caiff bodolaeth y plentyn ei gadw'n gyfrinachol rhag y teulu estynedig.[10] Mae'r cwestiwn ynghylch a oes angen hysbysu tadau geni/aelodau estynedig o'r teulu yn benderfyniad i'r tîm gwaith cymdeithasol sy'n gweithio gyda'r plentyn a'i riant. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol a ddyrennir ddilyn yr ymagwedd Re BS[11] o roi ystyriaeth i'r holl ddewisiadau realistig cyn bodloni ar gynllun i fabwysiadu. Os yw gweithwyr proffesiynol yn methu â diystyru tad geni a theulu estynedig fel opsiynau realistig ar gyfer asesiad fel gofalwyr a bod y fam yn anghytuno, bydd angen cyfeirio'r achos at y llys bob amser.

Dylid nodi bod yn rhaid gwneud unrhyw gais am gyfarwyddiadau ynghylch a ddylid hysbysu aelodau estynedig o'r teulu i'r Uchel Lys sy'n arfer ei awdurdodaeth gynhenid.

Dewisiadau eraill yn hytrach na mabwysiadu

Dylai'r gwaith a wneir gan y gweithiwr cymdeithasol gyda'r rhiant biolegol sicrhau bod y rhiant/gwarcheidwad wedi ystyried pob opsiwn arall ar gyfer y plentyn. Gallai'r rhain gynnwys:

- Aros gyda'r rhiant/gwarcheidwad, gyda chefnogaeth agos lle y bo'n bosibl (gweler adran 5 ar Gymorth isod)

[10] JL (Ildio Babanod i'w Mabwysiadu) [2016] EWHC 440
[11] https://www.familylaw.co.uk/docs/pdf-files/re_b-s-children__2013__EWCA_Civ_1146.pdf

- Aros gyda'r rhiant arall os nad yw rhieni mewn perthynas â'i gilydd
- Pan fo'r babi a'r rhiant/rhieni yn cael eu lletya gan ofalwyr maeth, rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i ofalu am y babi a'r rhiant/rhieni i'w helpu i ddod dros eu gofid a datblygu eu sgiliau rhianta a'u hyder fel eu bod yn gallu gofalu am y plentyn
- Gofal maeth byrdymor, gyda'r nod o ddychwelyd y plentyn gyda chymorth;
- Lleoliad hirdymor gyda theulu ehangach y plentyn ar ochr y fam neu'r tad (gyda Gorchymyn Trefniadau Plentyn neu Orchymyn Gwarchodaeth Arbennig efallai). Rhaid i'r Asiantaeth Fabwysiadu ystyried gallu a pharodrwydd perthnasau'r plentyn i gynnig amgylchedd diogel i'r plentyn lle gall y plentyn ddatblygu a ffynnu, ac i ddiwallu anghenion y plentyn a dymuniadau a theimladau unrhyw un o berthnasau'r plentyn yn ymwneud â'r plentyn[12]
- Yn achos plant sy'n cael eu geni i ddinasyddion y tu allan i'r DU, dylid ystyried a ddylid cynnwys swyddfa is-gennad gwlad wreiddiol y rhieni gyda'r bwriad o benderfynu a ddylai'r plentyn gael ei fagu gan berthnasau yn y wlad honno. Yn yr achos hwn, byddai'n rhaid i unrhyw gais i'r llys am gyfarwyddiadau ar sut i fwrw ymlaen gael ei wneud i'r Uchel Lys i arfer ei awdurdodaeth gynhenid.

CYMORTH

Fel yr amlinellir uchod, darperir cwnsela a gwybodaeth am fabwysiadu yn aml gan aelod profiadol o'r gwasanaeth mabwysiadu sy'n annibynnol ar weithiwr cymdeithasol y plentyn. Fodd bynnag, yn ogystal â'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r rhiant biolegol, dylid cofio, wrth ystyried penderfyniad rhiant i leoli ei blentyn i'w fabwysiadu, ei bod yn debygol y bydd effaith emosiynol arno ac felly bydd y rhiant ei hun ag angen cymorth. Felly, efallai y bydd angen asesiad gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a bydd y gweithiwr cymdeithasol gofal plant yn gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd. Gall hefyd ddod i'r amlwg drwy gwnsela'r rhiant biolegol ynghylch mabwysiadu, ac wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer y plentyn, efallai y bydd angen elfen benodol o gymorth i'w alluogi i ddod i benderfyniad priodol ar gyfer y plentyn.

CYDSYNIAD

- Yn ystod y sesiynau cwnsela, dylai'r Asiantaeth Fabwysiadu fod yn ofalus wrth nodi a yw'r rhiant/rhieni yn gallu rhoi cydsyniad, yn enwedig os oes tystiolaeth o: anableddau dysgu; problemau iechyd meddwl; materion diwylliannol, ethnig neu ffydd; cydsyniad yn cael ei roi yn amodol, ac ati.
- Lle bo pryder ynglŷn â dealltwriaeth y rhiant, dylid ceisio asesiad ychwanegol ac

[12] [3] A.1(4)(f)(ii) a (iii) DMPh 2002

arbenigol gan weithiwr proffesiynol arall - yn ddelfrydol rhywun sydd eisoes yn adnabod y rhiant, megis gweithiwr cymdeithasol iechyd meddwl cymeradwy; gweithiwr cymdeithasol anableddau; meddyg teulu; bydwraig neu ymwelydd iechyd; seiciatrydd/seicolegydd neu rywun a all gynnig safbwynt ffydd neu ddiwylliannol.

- Os nad yw'r galluedd yn hysbys ar y pwynt atgyfeirio neu ar gam cynnar yn y broses, yna ni ddylai'r Awdurdod Lleol ofyn i Cafcass Cymru dystio i gydsyniad, nes i unrhyw faterion o'r fath gael eu datrys.
- Os yw rhiant o dan 18 oed (h.y. yn cael ei ystyried yn 'blentyn' ei hun o fewn ystyr Deddf Plant 1989), gellir ystyried fod rhiant yn rhoi cydsyniad dilys os y'i asesir yn gymwys gan y gweithiwr cymdeithasol sy'n cwnsela). Gweler **Atodiad 3** am gyngor pellach ynghylch mater cymhwysedd i roi caniatâd.
- Dylid hefyd ystyried a allai'r rhiant efallai elwa ar gymorth gwasanaeth eiriolaeth annibynnol
- Yn achos rhiant o dan 18 oed, bydd angen i Cafcass Cymru gael cofnod ysgrifenedig o asesiad, gan y gweithiwr cymdeithasol, yn cadarnhau bod y rhiant yn gymwys.
- Pan nodir bod gan riant biolegol anabledd dysgu a bod hyn yn debygol o effeithio ar allu'r rhiant i benderfynu, dylid ystyried darparu eiriolwr annibynnol i'r rhiant
- Os ystyrir nad yw'r rhiant yn gallu rhoi cydsyniad deallus neu yr erys amheuaeth ynghylch galluedd y rhiant, ond bod yr Asiantaeth Fabwysiadu yn penderfynu lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu yn dilyn cwnsela ac asesu'r rhiant, rhaid gwneud cais am Orchymyn Lleoli cyn i'r broses o leoli'r plentyn fynd rhagddo.
- Gellir cynnal asesiad o alluedd y tu allan i achosion Llys, os oes gan riant rai anawsterau dysgu neu os yw'r ALl yn ansicr ynghylch gallu rhiant i ddeall goblygiadau'r penderfyniadau y maent yn ei wneud. Os nad oes ganddynt alluedd, ni allant lofnodi cydsyniad.

Tynnu cydsyniad yn ôl

- Caiff y naill riant neu'r llall dynnu yn ôl ei gydsyniad i leoli ei blentyn i'w fabwysiadu a/neu roi caniatâd ymlaen llaw i fabwysiadu, ar unrhyw adeg cyn i'r darpar fabwysiadwyr wneud cais am Orchymyn Mabwysiadu, naill ai drwy ddefnyddio ffurflen 'Tynnu Cydsyniad yn Ôl o Adrannau 19 ac 20 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002' neu drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir i'r Asiantaeth Fabwysiadu. Mae tynnu cydsyniad o'r fath yn ôl yn dileu awdurdod yr Asiantaeth Fabwysiadu i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu[13].
- Wrth dderbyn yr Hysbysiad Tynnu yn Ôl, bydd yr Awdurdod Lleol (fel yr asiantaeth) yn colli'r awdurdod i leoli a dylid cynnal adolygiad ar unwaith o gynllun mabwysiadu'r plentyn. Yn dilyn cyngor cyfreithiol, mae'n bosib y gall yr Awdurdod Lleol benderfynu gwneud cais am Orchymyn Lleoli.
- Pan fo'r plentyn yn cael ei letya yn amodol ar gydsyniad rhieni o dan Adran 19 DMPh 2002, ond nad yw wedi'i leoli eto gydag ymgeiswyr mabwysiadol, a bod y rhiant neu'r gwarcheidwad yn hysbysu'r Awdurdod Lleol/Asiantaeth Fabwysiadu eu bod yn dymuno i'r plentyn gael ei ddychwelyd i'w gofal, dylid dychwelyd y plentyn i'r rhiant/rhieni/gwarcheidwad(aid) o fewn 7 diwrnod, oni bai bod yr Awdurdod Lleol naill ai wedi gwneud cais am Orchymyn Lleoli, y gwneir penderfyniad i wneud cais am Orchymyn Lleoli neu y cymerir camau brys eraill i sicrhau bod parhau â'r lleoli yn gyfreithlon. Os bydd angen ychydig ddyddiau ar y rhiant biolegol i wneud trefniadau i gael y plentyn gartref, dylid ystyried hyn a gwneud cynlluniau yn unol â hynny.

Pan fo'r plentyn yn cael ei leoli i'w fabwysiadu - a bod y rhiant neu'r gwarcheidwad yn gofyn am ddychwelyd y plentyn, rhaid dychwelyd y plentyn i'r asiantaeth o fewn 14 diwrnod (neu yn achos plentyn o dan 6 wythnos oed, o fewn 7 diwrnod), gan ddechrau gyda'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad. Fodd bynnag, os yw'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r plentyn mewn perygl o niwed sylweddol pe bai'n cael ei ddychwelyd, bydd angen i'r Awdurdod Lleol ddilyn y broses amddiffyn plant yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, gan gynnwys ystyried a ddylid gwneud cais i'r llys am achos gofal a/neu leoli yn ddi-oed.

- Nid oes rheidrwydd ar yr Asiantaeth Fabwysiadu i ddychwelyd y plentyn i'r rhiant (rhieni) biolegol pan fydd cais am Orchymyn Lleoli wedi ei wneud ac yn yr arfaeth gerbron y llys. Fodd bynnag, bydd asesiadau pellach yn dod yn ofyniad a bydd angen ystyried cydsyniad i'r plentyn barhau i dderbyn gofal[14].
- Unwaith y bydd cais am Orchymyn Mabwysiadu wedi'i gyhoeddi, ni ellir tynnu

[13] Rheoliad 39, RhAM 2005
[14] A.32, DMPh 2002

cydsyniad yn ôl ac unig lwybr y rhiant fydd gwneud cais am hawl i wrthwynebu'r gorchymyn mabwysiadu.

PENDERFYNIADAU AWDURDOD LLEOL

Yn dilyn y cam cwnsela ac asesu ac os yw'r rhiant/rhieni yn parhau i fynegi eu hangen i weld y plentyn yn cael ei fabwysiadu, dylai'r gweithiwr cymdeithasol plant priodol wneud penderfyniad i fynd ymlaen i'r Panel Mabwysiadu er mwyn i'r plentyn gael ei ystyried i'w fabwysiadu fel plentyn sydd wedi'i ildio. (Sylwer, fodd bynnag, mai argymhelliad y Panel Mabwysiadu a Phenderfynwr yr Asiantaeth Fabwysiadu (PA) a fydd yn cadarnhau'r cynllun ar gyfer y plentyn).

Plentyn Sydd Eisoes wedi'i Eni

- Os yw'r plentyn eisoes yng ngofal y rhiant/rhieni, dylid gwneud asesiad a phenderfyniad yn brydlon ynghylch ar ba pwynt y dylid lletya'r plentyn, gan gofio y bydd gwahanu'n effeithio ar ymlyniad y plentyn sy'n datblygu; gallai hyn fod yn 'gadarnhaol' os yw'r bond rhiant/rhieni/gwarcheidwad(aid) yn wael, gyda'r effaith ddilynol ar ymlyniad y plentyn. Mewn llawer o amgylchiadau, bydd y plentyn yn cael ei letya'n brydlon o dan Adran 76 oherwydd amgylchiadau a dymuniadau rhiant/gwarcheidwad.
- Dylai rhiant lofnodi ei gydsyniad i'r lleoli ar gyfer mabwysiadu - ar ôl cael yr holl wybodaeth berthnasol ynghylch mabwysiadu, cyswllt a chymorth iddynt hwy a'u teulu.
- Pan fydd y mater wedi'i gyflwyno i'r Panel Mabwysiadu a'i gytuno gan Benderfynwr yr Asiantaeth (PA) a bod Cafcass wedi cwblhau eu rôl (gweler isod), dylid ceisio lleoliad mabwysiadu.
- Dylid cyfeirio'r achos at y Tîm Mabwysiadu Rhanbarthol cyn gynted ag y bo modd o fewn y 'broses ildio' fel y gellir gwneud ymdrechion i nodi lleoliad priodol, gan gynnwys lleoliad cydredol (lleoli Sefydlogrwydd Cynnar yng Nghymru)

Plentyn Cyn Geni

Bydd y rhan fwyaf o blant sy'n cael eu hildio yn dod fel cais cyn geni gan y fam. Mae angen cynnal prosesau cwnsela/prosesau casglu gwybodaeth gyda'r fam a, (lle bo'n briodol ac yn hysbys), y tad tybiedig a gweithredu arnynt fel yr amlinellir uchod. Sylwer, fodd bynnag, na all Cafcass Cymru gael cydsyniad ffurfiol gan y fam ar gyfer lleoliad mabwysiadu na chydsyniad ymlaen llaw i fabwysiadu nes bod y plentyn yn 6 wythnos oed. Ni fydd unrhyw gydsyniad a ddarperir cyn yr amser hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer creu gorchymyn mabwysiadu.

CAMAU GWEITHREDU AR GYFER YR ASIANTAETH FABWYSIADU O RAN CAFCASS CYMRU

Wrth gael awgrym gan riant biolegol eu bod yn mynd i ildio'u plentyn i'w fabwysiadu, bydd angen i'r Asiantaeth Fabwysiadu hysbysu swyddfa Cafcass Cymru sydd agosaf at gyfeiriad y rhieni. Bydd hyn yn galluogi Cafcass Cymru i sicrhau y bydd Swyddog Achosion Teuluol ar gyfer Cymru ar gael i dystio i gydsyniad ar yr adeg briodol, yn dilyn dod i benderfyniad y "dylid ei fabwysiadu". Bydd angen i'r Asiantaeth Fabwysiadu anfon gwybodaeth at Cafcass Cymru ynghylch yr achos, fel y nodir yn Atodlen 2 y RhAM. Yn ogystal, mae'n bwysig ar y cam hwn bod gweithiwr cymdeithasol a Rheolwr Tîm y plentyn yn gofyn am gyngor eu tîm cyfreithiol. Efallai y byddant hefyd am gael trafodaeth ragarweiniol gyda Cafcass Cymru i'w hysbysu o'r achos a rhannu unrhyw wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r achos.

Gellir cael cyfeiriad i'r swyddfa Cafcass Cymru perthnasol ar wefan Cafcass Cymru.

Atgyfeirio ar frys i Cafcass Cymru cyn penderfyniad y PA

- Fel arfer, ni chysylltir â Cafcass Cymru i ofyn iddynt benodi swyddog i fod yn dyst i gydsyniad hyd nes y bydd yr Asiantaeth Fabwysiadu wedi penderfynu, ar ôl argymhelliad y panel a phenderfyniad yr asiantaeth, y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer mabwysiadu gan nad yw unrhyw gynllun arall yn gofyn am gydsyniad Adran 19 neu Adran 20.

- Mae'r gyfraith yn caniatáu i gydsyniad gael ei roi cyn i'r panel mabwysiadu gyfarfod a bod yr Asiantaeth Fabwysiadu wedi penderfynu y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu o*s yw'r plentyn yn chwech wythnos oed o leiaf*. Byddai hyn mewn amgylchiadau, er enghraifft, lle mae rhiant yn awyddus i roi cydsyniad adran 19 cyn gynted ag y bydd eu plentyn yn cyrraedd chwe wythnos oed, a/neu os oes perygl na fyddent ar gael mwyach i lofnodi wedi hynny.

- Os bydd yr Asiantaeth Fabwysiadu yn fodlon y gwnaed cymaint o ymdrech â phosibl i gwnsela a chynghori'r rhiant sy'n dymuno darparu cydsyniad adran 19, dylid gwneud cais brys i Swyddog Cafcass Cymru dystio i'r cydsyniad cyn cyfarfod y panel a phenderfyniad yr asiantaeth. Mae'r brys hwn yn angenrheidiol oherwydd bod rhaid i'r Asiantaeth Fabwysiadu wneud cais am Orchymyn Lleoli os nad yw'r rhiant yn rhoi cydsyniad, ac mae mabwysiadu yw'r cynllun ar gyfer y plentyn o hyd. Gallai hyn arwain at oedi sylweddol i leoli'r plentyn i'w fabwysiadu.

---

[1] Paragraff 186 o'r Canllawiau Statudol; Sandwell MBC v GC & Oths [2008] EWHC 2555 (Fam)

[1] A.47(4)(b)(i) DMPh 2002

LLEOLI PLENTYN O DAN 6 WYTHNOS OED

- Caniateir i'r Asiantaeth Fabwysiadu leoli plentyn o dan 6 wythnos oed yng ngofal darpar fabwysiadwyr gyda chydsyniad y rhieni biolegol[15]. Fodd bynnag, mae caniatâd a gymerir cyn i'r plentyn gyrraedd 6 wythnos yn aneffeithiol at ddibenion unrhyw gais dilynol am Orchymyn Mabwysiadu a wnaed gan y darpar fabwysiadwyr*[16]. Byddai hyn yn golygu y byddai gofyn i'r llys geisio cydsyniad newydd neu fel arall weinyddu cydsyniad y rhiant/rhieni ar adeg y gwrandawiad. Perygl hyn yw creu oedi pellach i'r plentyn. *[* rhaid i'r Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu ar gyfer y mabwysiadwyr sicrhau bod gan y darpar fabwysiadwyr ddealltwriaeth lawn o hyn cyn iddynt gytuno i leoliad o'r fath].*

- Yn ogystal, mae adran 52(3) o DMPh 2002 yn datgan bod rhoi cydsyniad ymlaen llaw i fabwysiadu dan adran 20 yn aneffeithiol os yw'n cael ei roi lai na chwe wythnos ar ôl genedigaeth y plentyn. Yn unol â hynny, ni ddylid ceisio cydsyniad ymlaen llaw i fabwysiadu hyd nes y bydd y plentyn wedi cyrraedd 6 wythnos oed.

- Er mwyn osgoi oedi posibl, dylid defnyddio'r weithdrefn ganlynol o ran lleoli plant o dan 6 wythnos oed:
  - Ar adeg lleoli'r plentyn, dylai'r Asiantaeth Fabwysiadu gael cydsyniad ysgrifenedig y rhieni biolegol i'r lleoliad fynd yn ei flaen gan ddefnyddio'r ffurflen a nodir yn Atodiad 10.
  - Pan fydd y plentyn yn cyrraedd 6 wythnos oed, dylid cysylltu â Cafcass Cymru i geisio cydsyniad ffurfiol gan y rhieni dan Adran 19 ac, os yw'n gymwys, Adran 20.

- Dylai'r Asiantaeth Fabwysiadu ddarparu cwnsela ychwanegol i'r rhiant neu'r gwarcheidwad lle mae'n ceisio cael cydsyniad wedi'i lofnodi ganddynt i leoli ar gyfer mabwysiadu eu plentyn o dan chwe wythnos oed.

Dylai'r asiantaeth ei gwneud yn glir ar lafar ac yn ysgrifenedig bod y rhiant neu'r gwarcheidwad yn cadw cyfrifoldeb rhiant llawn tan:

- **eu bod yn rhoi eu caniatâd o dan adran 19 y Ddeddf, ar ôl i'r plentyn gyrraedd chwe wythnos oed, neu**
- **y gwneir gorchymyn lleoli, neu**
- **y gwneir gorchymyn mabwysiadu.**

[15] Paragraff 186 o'r Canllawiau Statudol; Sandwell MBC v GC & Oths [2008] EWHC 2555 (Fam)
[16] A.47(4)(b)(i) DMPh 2002

- Dim ond drwy gytundeb â'r asiantaeth neu drwy orchymyn y llys y gall y rhiant neu'r gwarcheidwad gael cyswllt â'r plentyn;

    - os yw'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn gofyn i'r plentyn gael ei ddychwelyd, rhaid i'r asiantaeth ddychwelyd y plentyn oni bai bod cais yn cael ei wneud neu ei roi ar gyfer unrhyw un o'r gorchmynion canlynol ynghlwm â'r plentyn:
        - gorchymyn amddiffyn brys neu orchymyn gofal o dan Ddeddf 1989;
        - gorchymyn lleoli neu orchymyn mabwysiadu o dan y Ddeddf,

    - wedi'r cyfnod chwe wythnos oed, bydd yr asiantaeth yn ceisio trefnu iddynt roi eu caniatâd ffurfiol i'r plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu.

Dylid nodi, os caiff y plentyn ei leoli gyda darpar fabwysiadwyr cyn ei fod yn 6 wythnos oed a'i fod yn aros yn y lleoliad hwnnw, a bod cydsyniad yn cael ei gynnal a'i ffurfioli ar chwe wythnos, yna bydd y mabwysiadwyr yn gallu gwneud cais am Orchymyn Mabwysiadu cymaint â hynny'n gynt, h.y. 10 wythnos o'r pwynt lleoli.

CWBLHAU GWYBODAETH ATODLEN 2

Rhaid darparu atodlen wybodaeth (Atodlen 2, RhAM) i Cafcass Cymru (gweler y Profforma yn **Atodiad 8**). Dylai gwybodaeth Atodlen 2 gynnwys y canlynol:

- copi ardystiedig o dystysgrif geni, enw a chyfeiriad neu gyfeiriad cyswllt y rhiant/rhieni/gwarcheidwad(aid) y mae eu cydsyniad i'w dystio (Noder: os yw rhiant y tu allan i Gymru, ni all Cafcass Cymru dystio i gydsyniad a rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ofyn i swyddog o CAFCASS (yn Lloegr), Ynad Heddwch neu Siryf yn yr Alban neu G. Iwerddon, neu berson awdurdodedig o dan AA(W) 2005 Rheoliad 20A(2)(c) y tu allan i'r DU, i dystio i gydsyniad).
- cronoleg o gamau gweithredu a phenderfyniadau a gymerwyd gan yr Asiantaeth Fabwysiadu yn ymwneud â'r plentyn
- cadarnhad gan yr Asiantaeth Fabwysiadu ei fod wedi cynghori ac wedi egluro goblygiadau cyfreithiol y ddau gydsyniad i leoli dan Adran 19 ac, os yw'n gymwys, Adran 20, ac wedi rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i'r rhiant/gwarcheidwad am hyn ynghyd â chopi o'r wybodaeth ysgrifenedig a roddwyd i'r rhiant neu'r gwarcheidwad;
- Unrhyw wybodaeth am y rhiant neu'r gwarcheidwad neu wybodaeth arall y mae'r Asiantaeth Fabwysiadu o'r farn y gallai fod angen i Cafcass Cymru wybod amdani

Gall gwybodaeth ychwanegol **gynnwys lle y bo'n briodol:**

- a yw'r plentyn yn cael ei letya ac mewn gofal maeth
- a yw'r Asiantaeth Fabwysiadu, gyda chydsyniad rhiant, wedi lleoli'r plentyn gyda darpar fabwysiadwyr cyn i'r plentyn gyrraedd chwe wythnos oed
- y dyddiad y penderfynodd yr Asiantaeth Fabwysiadu y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, neu'r dyddiad arfaethedig ar gyfer cyfarfod y panel mabwysiadu a

phenderfyniad Penderfynwr yr Asiantaeth;

- p'un a geisiwyd barn gweithiwr proffesiynol arall am alluedd a chadarnhad ei fod o'r farn bod y rhiant/gwarcheidwad yn gymwys;
- gwybodaeth am ymwybyddiaeth neu fel arall y perthnasau am enedigaeth y plentyn neu'r cynlluniau mabwysiadu; er enghraifft, os nad yw genedigaeth y plentyn neu'r cynllun ar gyfer mabwysiadu yn hysbys i'r tad neu'r perthnasau biolegol, pa gamau y dylai Swyddog Achosion Teuluol yng Nghymru eu cymryd wrth drefnu i gyfarfod â'r rhiant/gwarcheidwad cydsyniol i gadw eu cyfrinachedd.
- A yw'r plentyn wedi'i leoli gyda darpar fabwysiadwyr pan yw o dan chwe wythnos oed
- A yw gwaith meddygol y broses fabwysiadu wedi nodi unrhyw bryderon iechyd ynghlwm â'r plentyn
- Cofnodion y panel mabwysiadu a chofnod o benderfyniad Penderfynwr yr Asiantaeth i fwrw ymlaen â'r cynllun mabwysiadu. Os nad yw'r penderfyniad wedi'i wneud eto, y dyddiad arfaethedig ar gyfer cyfarfod y panel mabwysiadu a phenderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu.

HYSBYSU CAFCASS CYMRU

- Unwaith y bydd Penderfynwr yr Asiantaeth wedi cadarnhau'r cynllun ar gyfer mabwysiadu'r plentyn, rhaid anfon hysbysiad ar frys i Cafcass Cymru. Dylid disgwyl i'r Asiantaeth Fabwysiadu hysbysu'r rhiant biolegol am rôl Cafcass Cymru ac y byddant yn cymryd rhan a phaham.
- Prif rôl Cafcass Cymru yw sicrhau bod cydsyniad ar gyfer lleoli i fabwysiadu (Adran 19) a chydsyniad ymlaen llaw ar gyfer Gorchymyn Mabwysiadu (Adran 20) wedi'i wneud yn ddiamod a chyda dealltwriaeth lawn o'r cyfan y mae hyn yn ei olygu o ran yr adrannau hynny, o ran y mabwysiadu a'i holl oblygiadau.
- Byddai Cafcass Cymru yn ceisio cael caniatâd wedi'i lofnodi gan y fam enedigol ac unrhyw dad biolegol sydd â chyfrifoldeb rhiant. Os nad oes CRh gan dad geni, dylai Swyddog Adrodd Cafcass Cymru gadarnhau a yw wedi ei hysbysu ac wedi derbyn cwnsela, neu os nad yw, bod yn eglur ynglŷn â'r rhesymau dros hyn.
- Nid rôl Cafcass Cymru yw herio rhieni biolegol am eu penderfyniad i ildio'r plentyn (cyn belled â'u bod yn gymwys).
- Mae gan Cafcass Cymru ddyletswydd i ddiogelu buddiannau plant yng Nghymru. Ni fydd Swyddog Achosion Teuluol ar gyfer Cymru yn gallu cael cydsyniad os yw'n credu bod tad neu aelod o'r teulu wedi cael ei eithrio mewn modd amhriodol a bod hawliau'r plentyn o dan y Siarter Hawliau Dynol Ewrop wedi cael eu torri. Os nodir y mater hwn, cynhelir trafodaethau gyda'r bwriad o ddatrys unrhyw faterion yn hytrach na bod yr ALl yn gorfod gwneud cais i'r llys

Ffurflenni perthnasol i gyd-fynd â'r hysbysiad

Rhaid anfon y dogfennau canlynol at Cafcass:

- Hysbysiad o'r plentyn sydd i gael ei ildio i'w fabwysiadu;
- Profforma Atodlen 2

Y MATHAU O GYDSYNIAD I'W CEISIO GAN CAFCASS CYMRU

Adran 19 Cydsynio i Leoli ar gyfer Mabwysiadu

- Mae Adran 19 y Ddeddf yn nodi y gall rhiant/gwarcheidwad gydsynio i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, ac y gall y cydsyniad hwn fod ar gyfer lleoli gydag unrhyw ddarpar fabwysiadwr a ddewisir gan yr asiantaeth, neu ar gyfer darpar fabwysiadwr penodol. Yn yr achos olaf, caniateir i'r cydsyniad (ond nid yw'n ofynnol) nodi, os digwydd i leoli gyda darpar fabwysiadwr penodol gael ei derfynu cyn i Orchymyn Mabwysiadu gael ei wneud, y caiff yr asiantaeth leoli'r plentyn gyda darpar fabwysiadwr o'i ddewis ei hun.

- Mae cydsyniad a ddarperir o dan a.19 yn cael effaith gyffelyb i lys yn gwneud Gorchymyn Lleoli sy'n ymwneud â phlentyn. Mae'n caniatáu i'r Asiantaeth Fabwysiadu leoli'r plentyn gyda darpar fabwysiadwyr a all yna fynd ymlaen i wneud cais am Orchymyn Mabwysiadu ar ôl i'r plentyn fod yn byw gyda hwy am y cyfnod 10 wythnos gofynnol. Ar ôl cael caniatâd, rhoddir cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn i'r Asiantaeth Fabwysiadu ac, ar ôl ei leoli, i'r darpar fabwysiadwyr.

Yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos, gofynnir i'r rhiant (rhieni)/ gwarcheidwad(aid) lofnodi un o'r ffurflenni canlynol o ran a.19:

A100	Ffurflen gydsynio i leoli ar gyfer mabwysiadu gydag unrhyw ddarpar fabwysiadwyr a ddewisir gan yr Asiantaeth Fabwysiadu - dan adran 19 (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002)
A101	Ffurflen gydsynio i leoli ar gyfer mabwysiadu gyda darpar fabwysiadw(y)r a nodir - dan Adran 19 (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002)
A102	Ffurflen gydsynio i leoli ar gyfer mabwysiadu gyda darpar ofalwyr a nodir ac, os bydd y lleoliad yn cael ei derfynu, gydag unrhyw ddarpar-fabwysiadwyr a ddewisir gan yr Asiantaeth Fabwysiadu - dan Adran 19 (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002)

Adran 20 Cydsyniad Ymlaen Llaw i Fabwysiadu

- Mae Adran 20 y Ddeddf yn caniatáu i riant neu warcheidwad plentyn sy'n cydsynio i'w blentyn gael ei leoli dan adran 19 gydsynio i wneud Gorchymyn Mabwysiadu yn y dyfodol o blaid y darpar fabwysiadwyr y lleolir y plentyn gyda hwy. Ar yr un pryd, mae gan y rhiant/gwarcheidwad yr opsiwn o wneud datganiad nad yw'n dymuno cael gwybod am unrhyw gais am Orchymyn Mabwysiadu (er y gall dynnu datganiad o'r fath yn ôl yn ddiweddarach).
- Bydd cydsyniad a ddarperir dan a.20 yn ddilys at ddibenion unrhyw gais dilynol gan

ddarpar fabwysiadwyr am orchymyn mabwysiadu sy'n ymwneud â'r plentyn.

Datganiad gyda Chydsyniad Ymlaen Llaw Adran 20

- Mae Adran 20 (4) DMPh 2002 yn caniatáu i riant neu warcheidwad wneud datganiad nad yw'n dymuno cael ei hysbysu o'r cais am Orchymyn Mabwysiadu dan adran 20. Gellir rhoi'r datganiad hwn ar yr un pryd â rhoi cydsyniad dan a.20 neu ar unrhyw adeg wedyn ar ôl i'r cais gael ei wneud. Effaith y datganiad yw na fydd y rhiant/gwarcheidwad yn derbyn hysbysiad o'r cais a gellir gwneud Gorchymyn Mabwysiadu yn eu habsenoldeb.

Wrth geisio cydsyniad dan a.20, bydd Cafcass Cymru yn gofyn i'r rhiant (rhieni)/gwarcheidwad(aid) lofnodi un o'r ffurflenni canlynol:

A103	A103: Cydsyniad ymlaen llaw i fabwysiadu - Adran 20 (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002)
A104	Cydsyniad i Fabwysiadu - (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002)

Canlyniad/Ymateb Cafcass Cymru

Cydsynio i leoli ar gyfer mabwysiadu	Rhoddwyd cydsyniad yn ddiamod ac yn briodol gyda gwybodaeth a dealltwriaeth lawn o fabwysiadu a'r broses.
Cydsyniad i leoli ar gyfer mabwysiadu (Adran 19) a chydsyniad Ymlaen Llaw i wneud Gorchymyn Mabwysiadu (Adran 20):	Cydsyniad wedi ei roi yn ddiamod a chywir ar gyfer lleoli ac ar gyfer Gorchymyn Mabwysiadu gyda gwybodaeth a dealltwriaeth lawn ynghylch mabwysiadu a'r broses.

Pan fo'r rhiant(rhieni)/gwarcheidwad(aid) wedi nodi a rhoi hysbysiad nad ydynt yn dymuno cael eu hysbysu pan wneir cais am Orchymyn Mabwysiadu, Adran 20(4) Deddf Mabwysiadu a Phlant, dylai'r llythyr gydnabod hyn hefyd ac atodi 'Datganiad' i'r perwyl hwn.

Y GALLU I ROI CYDSYNIAD

Os oes pryderon ynghylch cymhwysedd rhiant(rhieni)/gwarcheidwa(aid) i roi cydsyniad diamod a chyda dealltwriaeth lawn ynghylch yr hyn a olygir, sy'n atal swyddog Cafcass rhag cydlofnodi'r ffurflen(n)i, dylid cwblhau llythyr 4, gan roi esboniad llawn o'r rhesymau pam na ellid cydlofnodi'r ffurflen(n)i.

Os oes gan Swyddog Adrodd Cafcass Cymru bryderon, ni fyddent yn bwrw ymlaen i geisio cael cydsyniad nes bod asesiad wedi'i gynnal a/neu bod y Llys wedi penderfynu ar sut i fwrw ymlaen. Un dangosydd a yw'r rhiant biolegol yn deall, efallai fyddai eu gallu i amgyffred rôl y Swyddog Adrodd.

Atodiad 1: Llif gwaith

Atodiad 2: Rhoi gwybod i'r tad geni ac aelodau eraill o'r teulu

Bydd angen i'r Asiantaeth Fabwysiadu ystyried a phwyso a mesur yr holl ffactorau perthnasol mewn achos. Mae'r rhestr ganlynol o ffactorau, nad yw'n gynhwysfawr, yn debygol o fod yn berthnasol:

- Cyfrifoldeb rhiant. Os oes gan y tad gyfrifoldeb rhiant, mae angen rhesymau cymhellol i beidio hysbysu, oherwydd byddai gan y tad statws parti awtomatig mewn cais mabwysiadu.

- Bodolaeth bywyd teuluol sefydledig neu bosibl gyda'r fam neu'r plentyn o dan Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (CEHD/*ECHR*). Bydd a yw hyn yn bodoli ai peidio yn fater o ffaith. Byddai priodas, perthynas debyg i briodas, cyd-fyw, hyd y berthynas, bwriad i sefydlu teulu, ac ymrwymiad i'r plentyn cyn ac ar ôl genedigaeth yn ei gwneud yn fwy tebygol bod bywyd teuluol. Mae bywyd teuluol sefydledig neu bosibl yn rhoi hawl i'r tad neu'r perthynas i gael gwrandawiad teg o dan Erthygl 6 y CEHD, felly mae angen rhesymau cryf i gyfiawnhau peidio â'u hysbysu.

- Sylwedd y berthynas. Dylid gofyn cwestiynau am amgylchiadau'r cenhedlu ac arwyddocâd y perthnasau. Y diben yw rhoi llais tybiannol i'r person tawel a chaniatáu i'r ALl a'r llys ystyried unrhyw gyfiawnhad gwrthrychol i'r person gwyno os ydynt yn darganfod yn ddiweddarach eu bod wedi'u heithrio.

- Y tebygolrwydd y bydd lleoliad teuluol yn ddewis amgen realistig yn lle mabwysiadu. Ni ddylai'r Asiantaeth Fabwysiadu ddibynnu ar farn y fam yn unig ynghylch a oes gofalwr posibl yn y teulu, yr effaith gorfforol, seicolegol neu gymdeithasol y caiff hysbysu ar y fam neu eraill. Ni ddylid rhoi gormod o bwys ar anawsterau tymor byr, embaras neu annifyrrwch cymdeithasol.

- Ffactorau diwylliannol a chrefyddol. Gall y rhain gynyddu'r risg o hysbysu ond gallant hefyd ganiatáu cynnal clymau geni drwy leoliad teuluol.

- Argaeledd a gwydnwch gwybodaeth gyfrinachol. Dim ond os oes rhywun i roi gwybod iddo y gall hysbysu fynd rhagddo. Mewn achosion lle mae mam yn gwrthod nodi'r tad, gellir ceisio ei pherswadio, os credir bod hynny'n briodol, ond ni ellir ei gorfodi. Mewn rhai achosion, gall y wybodaeth sydd ar gael olygu bod modd adnabod y tad, a gall perthnasau mamol hefyd fod yn adnabyddadwy. Mae'r graddau y dilynir gwybodaeth adnabod yn fater o farn. I'r gwrthwyneb, bydd achosion lle mae angen ystyried a yw unrhyw gyfrinachedd yn debygol o barhau. Dylid cadw mewn cof, yn y byd modern, bod cyfrinachau'n fwyfwy anodd eu cadw a'r canlyniadau, yn enwedig i'r plentyn ac unrhyw ddarpar fabwysiadwyr, o fodolaeth y plentyn yn cael ei gelu ond yna'n dod yn hysbys i aelodau'r teulu yn ddiweddarach a hynny weithiau yn sgil datgeliad gan y person sy'n ceisio cyfrinachedd.

- Effaith oedi. Bydd cais i'r llys am benderfyniad ar hysbysiad yn oedi'r adeg pan gaiff plentyn gadarnhad o leoliad parhaol. Gall oedi achosi canlyniadau niweidiol i'r fam neu'r plentyn. Gall achosi i ddarpar leoliad mabwysiadu gael ei golli.

Atodiad 3: Cymhwysedd wrth roi cydsyniad (cymhwysedd Gillick)

Mae'r prawf a oes gan riant o dan 18 oed y cymhwysedd angenrheidiol wedi'i nodi yn Gillick v West Norfolk ac Awdurdod Iechyd Wisbech [1985] 3 WLR 380, a ategir gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae'n ofynnol i'r rhiant gael "dealltwriaeth a gwybodaeth ddigonol i'w alluogi i ddeall yn llawn yr hyn a gynigir" a:

- Deall natur a goblygiadau'r penderfyniad a'r broses o weithredu'r penderfyniad hwnnw.
- Deall goblygiadau peidio â mynd ar drywydd y penderfyniad.
- Cadw'r wybodaeth yn ddigon hir i'r broses o wneud penderfyniadau fynd rhagddo.
- Bod ddigon deallus ac aeddfed i bwyso a mesur y wybodaeth a dod i benderfyniad.

Roedd yn rhaid i benderfyniad ynghylch cymhwysedd plentyn fod yn benodol i benderfyniad ac yn benodol i blentyn. Mae angen ystyried y cyd-destun ffeithiol penodol wrth werthuso cymhwysedd. Nid oedd y ffaith nad oes gan blentyn gymhwysedd i ymgyfreitha yn golygu nad oedd ganddynt gymhwysedd yn y pwnc i gydsynio i fabwysiadu. Rhaid gwneud yr asesiad cymhwysedd ar y dystiolaeth sydd ar gael.

Rhaid gwahaniaethu'n bwysig rhwng penderfynu ar gymhwysedd i wneud y penderfyniad, a'r person ifanc hwnnw yn arfer ei benderfyniadau cymwys.

Rhaid i'r rhiant hefyd ddeall y wybodaeth ganlynol am fabwysiadu:

- Bydd y plentyn yn byw gyda theulu gwahanol am byth. Mae'n annhebygol o fod â rhan yn dewis y teulu newydd
- Bydd gan y plentyn rieni cyfreithiol newydd. Yn gyfreithiol, ni fydd yn blentyn i'r rhiant mwyach.
- Mae mabwysiadu'n derfynol ac yn ddiwrthdro.
- Bydd penderfyniadau ynghylch â phwy mae'r plentyn yn byw ac yn eu gweld yn cael eu gwneud gan bobl eraill.
- Ni fydd ganddynt hawl i weld y plentyn. Mae cyswllt uniongyrchol yn annhebygol a bydd unrhyw gyswllt anuniongyrchol yn gyfyngedig.
- Yn y dyfodol, efallai y bydd y plentyn yn ceisio dod o hyd iddynt; dim ond os yw'r plentyn yn dymuno hynny y bydd unrhyw gyswllt yn y dyfodol yn digwydd.
- Mae dau gam i fabwysiadu. Bydd y plentyn yn cael ei leoli gyda'r teulu newydd i'w fabwysiadu, ac yna ceir y cam mabwysiadu ffurfiol.
- Mae'r amser i newid meddwl a'r hawl i newid meddwl unwaith y bydd y plentyn wedi'i leoli yn gyfyngedig. Nid oes hawl i newid meddwl ar ôl i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud
- Gallant gael cyngor cyfreithiol cyn gwneud penderfyniad

Wrth gymhwyso a.1(3) Deddf 2005, wrth benderfynu ar gymhwysedd rhiant plentyn o dan yr amgylchiadau hynny, rhaid bod "pob cam ymarferol i helpu" y rhiant i wneud penderfyniad wedi eu cymryd. Gan gymhwyso a.3(2), byddai person ifanc o dan 16 oed yn cael ei drin fel pe bai'n deall y wybodaeth sy'n berthnasol i benderfyniad pe bai'n gallu deall esboniad a roddwyd mewn ffordd sy'n briodol i'w hamgylchiadau, gan ddefnyddio iaith syml, cymhorthion gweledol neu unrhyw ddull arall.

Rhaid cymryd pob cam ymarferol i helpu'r rhiant i ddeall yr hyn y maent yn cydsynio iddo yn ystod y cam penderfynu. Mae hyn yn gofyn am wybodaeth am fabwysiadu sy'n briodol i oedran, a defnydd o iaith syml, cymhorthion gweledol, neu ddulliau eraill. Lle y bo'n bosibl, dylid rhoi'r wybodaeth dros ddwy sesiwn neu fwy gydag amser i'r rhiant gymhathu'r wybodaeth. Dylai'r rhiant ddeall y wybodaeth

yn y ffurflenni cydsyniad ar gyfer lleoli ar gyfer mabwysiadu ac ar gyfer mabwysiadu[17].

Atodiad 4: Llythyr 1

Logo a
chyfeiriad yr AF
Rhif cyfeirnod achos

Rheolwr Tîm
Cafcass Cymru
Swyddfa agosaf at y rhiant/gwarcheidwad

Annwyl

Parthed: Hysbysiad am blentyn sydd i'w ildio i'w fabwysiadu

Enw a dyddiad geni'r plentyn:

Amgaeaf y Wybodaeth yn Atodlen 2 sydd wedi'i chwblhau ynghyd â dogfennau cysylltiedig a gofynnaf fod swyddog yn cael ei benodi i dystio i gydsyniad Adran 19 a chydsyniad Adran 20 ymlaen llaw ar gyfer llunio Gorchymyn Mabwysiadu: *[dileer fel y bo'n briodol]*

a) Gyda mabwysiadwyr penodol
b) Gydag unrhyw fabwysiadwyr a ddewisir gan yr asiantaeth

A chadarnhewch ddymuniad y rhiant/gwarcheidwad: *[dileu fel y bo'n briodol]*
a) I roi cydsyniad ymlaen llaw i lunio Gorchymyn Mabwysiadu
b) Ddim yn dymuno cael gwybod am y cais am Orchymyn Mabwysiadu parthed eu plentyn.

Enw'r fam: *[os yw'n fodlon cydsynio]:*
Enw'r tad *[os oes ganddo gyfrifoldeb rhiant a'i fod yn fodlon cydsynio]*:
Enw'r gwarcheidwaid: *[os ydynt yn fodlon cydsynio]:*

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth:
Mam:
Tad:
Gwarcheidwad(aid):

Cyfeiriadau
cartref
y Fam:
y Tad:
Gwarcheidwad(aid):

Rwyf wedi amgáu gwybodaeth Atodlen 2, sy'n cynnwys y canlynol:

[17] Parthed S (Plentyn fel rhiant: Cydsyniad Mabwysiadu) [2017] EWHC 2729 (Fam)

- copi ardystiedig o dystysgrif geni'r plentyn

- enwau a chyfeiriadau neu gyfeiriadau cyswllt dewisol rhieni/gwarcheidwaid y plentyn sy'n fodlon rhoi cydsyniad
- Cronoleg o gamau gweithredu a phenderfyniadau a gymerwyd gan yr asiantaeth, gan gynnwys y dyddiad neu'r dyddiad arfaethedig pan fydd yr asiantaeth wedi neu yn penderfynu y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

Rwy'n cadarnhau'r canlynol:

- Mae'r Asiantaeth wedi cwnsela ac wedi egluro i'r rhiant (rhieni)/gwarcheidwad(aid) beth yw goblygiadau cyfreithiol cydsynio i leoliad dan adran 19 y Ddeddf a chydsyniad i wneud Gorchymyn Mabwysiadu dan adran 20 y Ddeddf.
- Mae copi o'r wybodaeth ysgrifenedig uchod wedi'i rhoi i'r rhiant (rhieni)/gwarcheidwad(aid)
- Mae'r holl wybodaeth ychwanegol arall y mae'r AF yn eu hystyried sydd angen i Swyddog Achosion Teuluol ar gyfer Cymru ei gwybod wedi'i rhoi i Cafcass Cymru.

Ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn nid oes unrhyw bryderon gwybyddus heb eu datrys ynghylch cymhwysedd y rhiant neu'r gwarcheidwad i roi cydsyniad yn ddiamod a chyda dealltwriaeth lawn o'r hyn sydd dan sylw.

Yn gywir

Enw'r Rheolwr

Atodiad 5: Llythyr 2

Cyfeiriad Cafcass Cymru

Enw'r Gweithiwr
Cymdeithasol (AF)

Cyfeiriad
Rhif cyfeirnod yr achos

Annwyl

Plentyn i'w ildio; Enw a Dyddiad Geni
Parthed: Cydlofnodi Ffurflenni Cydsyniad

Gan gyfeirio at eich cais i benodi swyddog i fod yn dyst i gydsyniad i leoli ar gyfer mabwysiadu a chydsyniad ymlaen llaw i wneud Gorchymyn Mabwysiadu *[dileer os nad yw'n briodol]*, rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi fy mod wedi tystio a chydlofnodi'r canlynol:

Ffurflen gydsyniad adran 19 *[dileer os nad yw'n briodol]*
Ffurflen gydsyniad adran 20 *[dileer os nad yw'n briodol]*

Rhoddodd y rhiant/gwarcheidwad wybod i mi nad oedd yn dymuno cael ei hysbysu o gais y Gorchymyn Mabwysiadu yn ymwneud â'i blentyn *[dileer os nad yw'n briodol]*

Mae'r ffurflenni cydsyniad gwreiddiol a'r hysbysiad wedi'u hamgáu ac maent yn ymwneud ag:
Enw'r fam:
Enw'r tad:
Enw'r gwarcheidwad(aid):

Yn gywir

Enw'r Rheolwr

D.S. Dychwelwch y ffurflenni cydsyniad gwreiddiol i'r AF drwy ddull danfon diogel

Atodiad 6: Llythyr 3

Cyfeiriad Cafcass Cymru

Enw'r swyddog [AF]
Cyfeiriad
Rhif cyfeirnod yr achos

Annwyl

Plentyn sydd i'w ildio; Enw a Dyddiad Geni
Parthed: Anallu i Gydlofnodi Ffurflenni Cydsyniad - Adran 19 ac 20

Gan gyfeirio at eich cais i benodi Swyddog Achosion Teuluol ar gyfer Cymru i fod yn dyst i gydsyniad i leoli ar gyfer mabwysiadu a chydsyniad ymlaen llaw i wneud Gorchymyn Mabwysiadu *[dileer os nad yw'n briodol]*, rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi nad wyf wedi gallu cydlofnodi'r canlynol:

Ffurflen gydsyniad adran 19 *[dileer os nad yw'n briodol]*
Ffurflen gydsyniad adran 20 *[dileer os nad yw'n briodol]*

Yn ymwneud â:
Enw'r fam:
Enw'r tad:
Enw'r gwarcheidwad(aid):

Y rhesymau pam nad wyf o'r farn bod y rhiant (rhieni)/gwarcheidwad(aid) yn gallu/yn barod i roi cydsyniad yn ddiamod a chyda dealltwriaeth lawn o'r hyn sy'n cael ei gynnwys yw:-

Yn gywir

Enw'r Rheolwr

Atodiad 7: Llythyr 4

Logo a chyfeiriad AF
Rhif Cyfeirnod achos

Rheolwr Ymarfer
Cafcass Cymru
Swyddfa agosaf at y rhiant/gwarcheidwad

Annwyl

Plentyn i'w ildio; Enw a Dyddiad Geni
Parthed: Cydlofnodi Cydsyniad Ymlaen Llaw ar gyfer Mabwysiadu

Gan gyfeirio at eich gohebiaeth ar *[nodwch y dyddiad]* yn tystio i lofnodi ffurflen gydsyniad adran 19 yn ymwneud ag:

Enw'r fam: *[os yw'n briodol]:*
Enw'r tad *[os yw'n briodol]:*
Enw'r gwarcheidwad(aid) *[os yw'n briodol]:*

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth:
Mam:
Tad:
Gwarcheidwad(aid):

Ysgrifennaf atoch i ofyn i chi fod yn dyst i lofnodi cydsyniad adran 20 ymlaen llaw i wneud Gorchymyn Mabwysiadu ac, os caiff ei roi i chi gan y rhiant (rhieni)/gwarcheidwad(aid), eich bod yn derbyn hysbysiad ganddynt nad ydynt yn dymuno cael gwybod am y cais am Orchymyn Mabwysiadu yn ymwneud â'u plentyn.

Amgaeaf atodiad i Wybodaeth Atodlen 2 a anfonwyd atoch yn flaenorol ar
[nodwch y dyddiad]

Yn gywir

Enw'r Rheolwr

Atodiad 8: Profforma Atodlen 2

Cydsyniad Adran 19 neu Adran 20 - Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005

Enw'r Asiantaeth:
Cyfeiriad:
Rhif Ffôn:
Rhif Ffacs:
Dyddiad cwblhau'r ffurflen:

Enw'r Gweithiwr Cymdeithasol sy'n cwblhau'r ffurflen hon
Rhif Ffôn:
Cyfeiriad e-bost:
Enw'r Rheolwr Tîm:
Rhif Ffôn, E-bost:

Llofnod a dyddiad: ……..

Dyddiad (neu ddyddiad arfaethedig) argymhelliad y panel mabwysiadu y dylid lleoli'r plentyn i'w fabwysiadu:

Dyddiad (neu ddyddiad arfaethedig) penderfyniad yr asiantaeth y dylid lleoli'r plentyn i'w fabwysiadu:

D.S. RHAID atodi copi ardystiedig o dystysgrif geni'r plentyn

<u>Y plentyn</u>
Cyfenw:
Enwau Cyntaf:
Unrhyw enw arall a ddefnyddir ar gyfer y plentyn:
Rhywedd:
Dyddiad Geni:

Gwybodaeth am y rhiant (rhieni)/gwarcheidwad(aid) y mae ei gydsyniad i'w dystio:
<u>Mam</u>
Cyfenw:
Enwau Cyntaf:
Dyddiad geni:
Statws Priodasol:
Cyfeiriad ar gyfer cyswllt gan Cafcass:
Rhif ffôn:

Tad *(os yn hysbys)*
Cyfenw:
Enwau Cyntaf:
Dyddiad geni:
Cyfeiriad ar gyfer cyswllt gan Cafcass:
Rhif Ffôn:

Gwarcheidwad(aid)
Cyfenw:
Enwau Cyntaf:
Cyfeiriad ar gyfer cyswllt gan Cafcass:
Rhif Ffôn:

Gwybodaeth ychwanegol:

- A yw'r plentyn yn cael ei letya (adran 76 Gwasanaethau Cymdeithasol Deddf Llesiant (Cymru) 2014)? Ydy/Nac ydy
- A yw'r plentyn mewn gofal maeth? Ydy/Nac ydy
- A yw'r plentyn wedi'i leoli gyda gofalwyr a nodwyd a allai fod am fabwysiadu? Ydy/Nac ydy
- Cadarnhad gan yr AF ei fod wedi cwnsela neu wedi ceisio cynghori'r rhiant/rhieni/ gwarcheidwad(aid) a oedd yn cydsynio ac wedi egluro goblygiadau cyfreithiol cydsynio i leoli o dan adran 19 ac adran 20, ac wedi rhoi'r wybodaeth i'r rhiant/rhieni/gwarcheidwad(aid) ar ffurf ysgrifenedig. Rhaid atodi copi o'r wybodaeth i'r ddogfen hon.
- Cronoleg o gamau gweithredu a phenderfyniadau a wnaed gan yr asiantaeth. Dylai hyn gynnwys camau gweithredu a phenderfyniadau a wneir o ran y teulu estynedig a'r tad geni heb gyfrifoldeb rhiant.

Gwybodaeth berthnasol arall, gan gynnwys;

- Os ceisiwyd barn gweithiwr proffesiynol arall am gymhwysedd, cadarnhad eu bod o'r farn bod y rhiant/gwarcheidwad yn gymwys i wneud y cais i fabwysiadu.
- Materion yn ymwneud â diffyg ymwybyddiaeth perthnasau am enedigaeth y plentyn, e.e. beichiogrwydd cudd.
- Os nad yw genedigaeth y plentyn neu'r cynllun ar gyfer mabwysiadu yn hysbys i berthnasau'r rhiant/rhieni/gwarcheidwad(aid), pa gamau y dylai Swyddog Achosion Teuluol Cymru eu cymryd wrth drefnu i gwrdd â rhieni/gwarcheidwaid sy'n rhoi cydsyniad er mwyn cadw eu cyfrinachedd?
- Materion yn ymwneud ag, er enghraifft, ymddygiad ymosodol, gelyniaeth, diwylliant neu ethnigrwydd, plentyn a genhedlir trwy dreisio neu unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â risg
- Unrhyw wybodaeth arall am y rhiant/rhieni/gwarcheidwad(aid) neu unrhyw wybodaeth y mae'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn y gallai Swyddog Achosion Teuluol Cymru fod angen ei gwybod.

Atodiad 9: Gwybodaeth ar gyfer Mamau Geni

Beth yn union yw mabwysiadu?
Mae mabwysiadu yn ffordd o ddarparu rhieni cyfreithiol newydd i blentyn a galluogi plentyn i ddod yn aelod cyfreithiol o deulu newydd weddill ei oes pan na all aros o fewn ei deulu biolegol. Mae'n dod â'r berthynas gyfreithiol rhwng y plentyn a'r rhieni biolegol i ben yn barhaol.

Trefnir mabwysiadu gan asiantaethau mabwysiadu ond y llys sy'n ei wneud yn gyfreithiol rwymol drwy wneud Gorchymyn Mabwysiadu. Unwaith y bydd Gorchymyn Mabwysiadu wedi'i wneud gan y Llys, mae'n derfynol ac yn ddiwrthdro.

Sut gallaf gael rhagor o wybodaeth am fabwysiadu?
Yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir gan asiantaethau mabwysiadu, gellir gofyn am gyngor hefyd gan:

- Weithwyr cymdeithasol o Adran Gwasanaethau Plant eich awdurdod lleol.
- Gweithwyr cymdeithasol mewn ysbytai sy'n gweithio gyda chlinigau mamolaeth.
- Gwefannau fel www.education.gov.uk; www.baaf.org.uk; www.adoptionuk.org

Sut mae mabwysiadu'n cael ei drefnu?
Os byddwch yn penderfynu mai mabwysiadu yw'r peth iawn i'ch plentyn neu os ydych chi am gael rhywfaint o help i'w ystyried ymhellach, bydd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr mabwysiadu arall yn treulio rhywfaint o amser gyda chi i'ch helpu gyda'ch penderfyniad. Byddwch yn cael cynnig 'cwnsela' sy'n golygu cymorth i feddwl am yr hyn y mae mabwysiadu'n ei olygu, y prosesau, ac a oes dewisiadau posib eraill. Byddwch hefyd yn cael cynnig cymorth gan weithiwr cymdeithasol sy'n annibynnol ar yr asiantaeth fabwysiadu.
Gall y paratoadau ar gyfer mabwysiadu ddechrau cyn i'ch plentyn gael ei eni, fodd bynnag, ni fydd unrhyw beth yn cael ei drefnu yn bendant tan ar ôl yr enedigaeth. Byddwch yn rhydd i newid eich meddwl tan yr adeg pan fyddwch yn llofnodi ffurflen yn rhoi eich cydsyniad (cytundeb) i leoli'ch plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, sydd fel arfer yn digwydd chwe wythnos ar ôl genedigaeth y plentyn. Yn dilyn hynny, mae'n bosibl newid eich meddwl nes y gwneir gorchymyn Llys, ond byddai'n mynd yn fwy cymhleth a gallai'r Llys ymyrryd.

Os byddwch yn penderfynu bwrw ymlaen â mabwysiadu, bydd angen i chi, maes o law, roi rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch chi'ch hun, eich teulu ac iechyd eich teulu, er mwyn i'r mabwysiadwyr allu ei rhannu gyda'r plentyn wrth iddo dyfu. Gofynnir i chi lofnodi i gytuno y gellir rhannu unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gennych gyda'r plentyn. Drwy wneud hyn, byddwch yn helpu eich plentyn i gael gwell ymdeimlad o'i wreiddiau a phwy ydyw.

A oes rhaid i dad y baban roi ei ganiatâd?
Os oes gan dad biolegol y plentyn gyfrifoldeb rhiant (CRh) yna mae ei ganiatâd yn angenrheidiol er mwyn lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu. I egluro, bydd gan dad y

baban gyfrifoldeb rhiant os yw;

- Yn briod â chi
- Wedi ei enwi ar dystysgrif geni'r baban
- Neu os yw wedi gwneud cais ers hynny ac wedi cael tystysgrif CRh

Os nad oes gan dad biolegol plentyn gyfrifoldeb rhiant, nid oes angen ei ganiatâd i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi efallai y bydd y tad yn dymuno gwneud cais am gyfrifoldeb rhiant ar unrhyw adeg cyn y mabwysiadu, ac os caiff hyn ei ganiatáu, byddai angen iddo hefyd gydsynio i'r mabwysiadu. Gallai ddewis tynnu ei gydsyniad i'r mabwysiadu yn ôl, ar unrhyw gam hyd nes y bydd cais am Orchymyn Mabwysiadu wedi'i wneud. Mae'n bosibl y bydd angen i'r gweithiwr cymdeithasol gysylltu â'r tad os ystyrir bod hynny'n briodol, gan y byddai'r asiantaeth fabwysiadu eisiau rhywfaint o wybodaeth am iechyd, teulu a hanes meddygol y tad fel y gallant ei throsglwyddo i'r mabwysiadwyr ac i'r plentyn.

Efallai na fydd tad y babi yn cytuno â chynllun mabwysiadu'r fam fiolegol ac efallai y bydd am fagu'r plentyn ei hun neu o fewn ei deulu ei hun. Os digwydd hyn, a bod gan y tad biolegol gyfrifoldeb rhiant neu ei fod yn debygol o wneud cais amdano, bydd angen i'r asiantaeth fabwysiadu a'r llys wybod am hynny. Os nad ydych chi a'r tad yn gallu cytuno, bydd yn rhaid i'r llys benderfynu a yw'n credu taw mabwysiadu neu fywyd gyda'r tad neu ei deulu sy'n debygol o fod orau i'r plentyn yn yr hirdymor.

Os ydych yn briod ond nid y gŵr yw'r tad, bydd y gyfraith yn dal i ystyried y gŵr yn dad cyfreithiol ar y plentyn oni bai ei fod wedi llofnodi, neu fod y llys yn gwneud, datganiad fel arall. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid cael cydsyniad eich gŵr i leoli ar gyfer mabwysiadu, ond bydd yr asiantaeth fabwysiadu hefyd eisiau, os yw'n bosibl, rhywfaint o wybodaeth am y tad biolegol fel y gall ei throsglwyddo i'r mabwysiadwyr ac i'r plentyn.

Pa fath o bobl fydd yn mabwysiadu fy mhlentyn?
Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn trafod gyda chi'r math o deulu rydych chi am i'ch plentyn gael ei fagu ynddo. Bydd y gofal mwyaf yn cael ei gymryd i ddod o hyd i deulu a fydd yn rhoi cartref diogel a chariadus i'ch plentyn. Bydd y person neu'r cwpl a ddewisir wedi bod drwy asesiad trylwyr i sicrhau y byddant yn gallu deall a chefnogi anghenion plentyn mabwysiedig gydol eu hoes. Dylech siarad â'r gweithiwr cymdeithasol am y posibilrwydd o gwrdd â'r teulu, os dymunwch, neu am fathau eraill o gyswllt megis cyfnewid llythyrau ac os cytunir i hynny, rhai ffotograffau. Bydd rhywun wedi siarad â'r mabwysiadwr(wyr) am bwysigrwydd sicrhau bod y plentyn yn deall ei fabwysiadu a'r opsiwn o gynnal rhywfaint o gyfathrebu â rhiant/rhieni biolegol eu plentyn.

Beth sy'n digwydd ar ôl i fy mabi gael ei eni?
Cyn i chi adael yr ysbyty gofynnir i chi lofnodi ffurflen i gytuno i'ch plentyn fynd at ofalwyr maeth (nid ffurflen gydsyniad ar gyfer mabwysiadu yw hon). Yn y rhan fwyaf o achosion bydd y babi'n derbyn gofal gan ofalwr maeth dros dro hyd nes y byddwch yn llofnodi i gydsynio i leoli ar gyfer mabwysiadu pan fydd eich plentyn yn chwe wythnos

oed; hyd at yr adeg yma, gallwch newid eich meddwl. Os byddwch yn newid eich meddwl, gellid dychwelyd eich plentyn atoch. Pe bai gan yr Awdurdod Lleol unrhyw bryderon ac am barhau â'r broses fabwysiadu, byddai angen iddynt wneud cais am Orchymyn Gofal Interim a Gorchymyn Lleoli ac ysgrifennu datganiad yn egluro eu rhesymau'n glir.

Mae angen cytundeb y gwasanaethau plant os ydych yn dymuno i'ch babi gael ei leoli i'w fabwysiadu o dan chwe wythnos oed. Dylech drafod hyn gyda'r gweithiwr cymdeithasol sydd wedi rhoi cyngor annibynnol i chi a gweithiwr cymdeithasol y plentyn. Gofynnir i chi lofnodi cytundeb ysgrifenedig. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â'r plentyn yn rheolaidd i wneud yn siŵr bod popeth yn mynd yn dda ac i gynnig cefnogaeth. Byddwch yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eich plentyn

Pan fydd eich babi yn chwe wythnos oed o leiaf

Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn trefnu i chi gael cyfweliad â swyddog Cafcass Cymru a fydd yn sicrhau eich bod yn deall beth sydd ynghlwm â mabwysiadu. Mae Cafcass Cymru yn sefydliad cwbl ar wahân i'r Awdurdod Lleol. Byddant yn gofyn i chi lofnodi dogfen ffurfiol yn cydsynio i leoli eich plentyn ar gyfer mabwysiadu, a gallech hefyd roi cydsyniad ymlaen llaw i Orchymyn Mabwysiadu gael ei wneud pan fydd y mabwysiadwyr yn gwneud cais amdano. Byddant am sicrhau eich bod yn deall yr hyn yr ydych yn ei lofnodi ac mai dyna yw eich dewis.

Os dymunwch, gallwch fod yn rhan o'r broses o helpu i benderfynu pa fath o deulu y dylai eich plentyn gael ei fagu ynddo, a bydd yr asiantaeth fabwysiadu a'ch gweithiwr cymdeithasol yn gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i deulu sy'n bodloni eich dymuniadau ac anghenion eich plentyn. Fodd bynnag, bydd angen i'r asiantaeth fabwysiadu a'ch gweithiwr cymdeithasol roi anghenion eich plentyn yn gyntaf bob amser wrth ddewis teulu.

Unwaith y bydd y plentyn wedi'i leoli gyda mabwysiadwyr ac wedi byw gyda hwy am 10 wythnos, gallant wedyn wneud cais am Orchymyn Mabwysiadu (mewn rhai achosion mae'r mabwysiadwyr yn gwneud cais am Orchymyn Mabwysiadu fisoedd lawer ar ôl i'r plentyn fynd i fyw gyda nhw). Os ydych yn dymuno gwrthwynebu (peidio â chytuno â) gwneud y Gorchymyn Mabwysiadu unwaith y bydd cais wedi dechrau, bydd angen i chi ofyn i'r llys am ganiatâd i wneud hynny. Gall y llys roi ei ganiatâd os yw'n fodlon bod amgylchiadau wedi newid ers i chi roi cydsyniad i'ch plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu. Bydd yr asiantaeth yn darparu adroddiad i'r llys am amgylchiadau'r plentyn, ac os yw'r llys yn fodlon bod Gorchymyn Mabwysiadu er lles gorau'r plentyn, caiff y Gorchymyn Mabwysiadu ei roi.

Cewch eich hysbysu am y cais mabwysiadu a phryd a ble y caiff ei glywed, oni bai eich bod yn gofyn yn benodol am beidio â chael gwybod.

Alla i drefnu'r mabwysiadu fy hun?

Mae amgylchiadau lle gallwch wneud trefniant preifat ar gyfer lleoli eich plentyn ond

byddai angen o hyd i'r Awdurdod Lleol ymchwilio i'r trefniant hwn. Mabwysiadu preifat fyddai hyn, sy'n gwbl wahanol a thu hwnt i gwmpas y daflen hon. Er mwyn amddiffyn y plentyn, rhaid i bob mabwysiadu arall gael ei drefnu gan asiantaeth fabwysiadu. Rhaid i'r holl orchmynion mabwysiadu gael eu rhoi gan Lys i fod yn gyfreithiol rwymol.

Beth os byddaf yn newid fy meddwl?

Ar ôl i chi lofnodi eich cydsyniad i'ch plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu, bydd eich hawl i newid eich meddwl yn gyfyngedig ac efallai y caiff ei golli'n gyfan gwbl. Byddwch yn gallu tynnu eich cydsyniad yn ôl unrhyw bryd nes bod y bobl sydd am fabwysiadu eich plentyn yn dechrau cais mabwysiadu yn y llys. Os byddwch yn tynnu eich cydsyniad yn ôl ac yn dymuno i'ch plentyn gael ei ddychwelyd, bydd angen i chi roi gwybod i'r asiantaeth fabwysiadu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y bydd eich plentyn yn cael ei ddychwelyd atoch yn awtomatig. Os *nad* yw'r asiantaeth fabwysiadu wedi lleoli eich plentyn gyda darpar fabwysiadwyr ac yn cytuno y dylid dychwelyd eich plentyn atoch, byddant yn dychwelyd y plentyn o fewn 7 diwrnod, oni bai bod angen mwy o amser arnoch a chytunir ar hynny gyda nhw. Os ydynt eisoes wedi lleoli'r plentyn gyda darpar fabwysiadwyr a'u bod yn cytuno y dylid dychwelyd eich plentyn atoch, dylent ddychwelyd y plentyn o fewn 14 diwrnod a byddant yn cytuno ar hyn gyda chi. Ond, os yw'r plentyn o dan 6 wythnos oed, bydd yn cael ei ddychwelyd o fewn 7 diwrnod.

Fodd bynnag, os yw'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn y dylai eich plentyn barhau i gael ei fabwysiadu, bydd yn rhaid iddynt wneud cais am Orchymyn Lleoli a Gorchymyn Gofal Dros Dro, gyda golwg ar ofyn i'r llys am ganiatâd i leoli eich plentyn ar gyfer ei fabwysiadu. Pe bai hynny'n digwydd, byddai'n rhaid iddynt wneud eu rhesymau'n glir iawn i'r Llys a byddai'r Llys yn penodi gweithiwr proffesiynol annibynnol o Cafcass Cymru i ymgymryd â'r achos ac adrodd yn ôl am yr hyn fyddai orau i'r plentyn. Byddent yn ystyried yr amgylchiadau ac yn siarad â chi a'r darpar fabwysiadwyr. Byddent hefyd yn penodi cyfreithiwr i gynrychioli anghenion a hawliau'r plentyn ym mhroses y llys. Byddai'n rhaid i hyn oll ddigwydd cyn y gallai'r Llys wneud penderfyniad terfynol.

Pan fydd y bobl sydd am fabwysiadu eich plentyn wedi gwneud cais i'r llys am Orchymyn Mabwysiadu, ni fyddwch yn gallu gofyn i'ch plentyn gael ei ddychwelyd. Oni bai eich bod wedi dweud nad ydych am gael gwybod, byddwch yn cael gwybod pan fyddant yn gwneud eu cais ond bydd yn rhaid i chi ofyn i'r llys am ganiatâd i'w wrthwynebu. Bydd yn rhaid i chi ddangos i'r llys bod yr amgylchiadau wedi newid ers i chi roi eich cydsyniad i'ch plentyn gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu a bod gofyn i'r llys ystyried yr hyn sydd wedi newid er budd gorau eich plentyn.

A fydda i'n gweld fy mhlentyn eto?

Unwaith y byddwch wedi rhoi caniatâd i'r plentyn gael ei leoli gyda darpar fabwysiadwyr, efallai y bydd yn bosibl cysylltu â'ch plentyn drwy drefniant gyda'r asiantaeth fabwysiadu neu drwy gael gorchymyn llys, ond ni fydd gennych hawl awtomatig i gysylltu. Bydd gennych hawl i wneud cais i'r llys am orchymyn i gael

cyswllt â'ch plentyn ar unrhyw adeg hyd nes y rhoddir y Gorchymyn Mabwysiadu. Gall mabwysiadu weithiau olygu cyswllt parhaus rhwng y rhieni biolegol a'r teulu mabwysiadol, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy lythyr. Byddai angen cytuno ar unrhyw drefniadau rhyngoch chi a'r mabwysiadwyr, a byddai'r asiantaeth fabwysiadu fel arfer yn eu cefnogi.

Fel arfer, bydd yr Asiantaeth yn ceisio dod o hyd i deulu ar gyfer eich plentyn sy'n hapus i gael y math o gyswllt yr hoffech ei gael, cyn belled â bod hyn hefyd er lles gorau eich plentyn. Er na fyddai'n arferol i blentyn ifanc iawn gael cyswllt wyneb yn wyneb â'i rieni biolegol yn barhaus, bydd y lefel a'r math o gyswllt a fyddai'n diwallu anghenion eich plentyn orau yn cael eu trafod gyda chi. Gall y cyswllt sydd gennych â'ch plentyn newid dros amser yn dibynnu ar anghenion y plentyn.

A fydd fy mhlentyn yn cael gwybod amdana i?
Disgwylir i rieni mabwysiadol sicrhau bod eu plentyn mabwysiedig yn tyfu i fyny i ddeall eu bod wedi eu mabwysiadu a'u bod yn cael hyfforddiant a chymorth i wybod sut i wneud hyn. Mae gan blant mabwysiedig lyfr Stori Bywyd a ddarperir ar eu cyfer sy'n eu helpu i ddeall y stori pam iddynt gael eu mabwysiadu. Cewch gyfle i ddarparu gwybodaeth a lluniau ar gyfer hyn a bydd beth bynnag y teimlwch y gallwch ei rannu yn helpu eich plentyn mabwysiedig i ddatblygu ymdeimlad o'i wreiddiau.

Mae gan blant a fabwysiadwyd hefyd wybodaeth fanylach wedi'i pharatoi ar eu cyfer, a elwir fel arfer yn Llythyr Bywyd Diweddarach, ar gyfer pan fyddant yn hŷn ac efallai y bydd ganddynt fwy o gwestiynau. Gallwch siarad â'r gweithiwr cymdeithasol am ysgrifennu hwn eich hun os byddwch yn dewis gwneud hynny. Fel arall, bydd gweithiwr cymdeithasol yn paratoi hyn, gan esbonio pam y bu'n rhaid dewis teulu newydd ar eu cyfer. Efallai y byddwch hefyd am ddarparu storfa ar gyfer eich plentyn a fydd yn cael ei drosglwyddo i'r mabwysiadwyr ar gyfer eich plentyn.

A allaf ei gadw'n gyfrinach?
Chi biau'r dewis o ran datgelu hyn. Cynghorir rhieni sy'n mabwysiadu i ddweud wrth blant o oedran cynnar eu bod wedi cael eu mabwysiadu. Wrth iddynt dyfu, mae'r rhan fwyaf o bobl a fabwysiadwyd yn chwilfrydig i wybod rhywbeth am eu cefndir.

Gall pobl a fabwysiadwyd gael eu tystysgrif geni wreiddiol pan fyddant yn 18 oed (16 yn yr Alban), ac os cawsoch eich cofrestru fel rhiant, bydd eich enw ar y dystysgrif. Gan ddefnyddio'r wybodaeth honno gallai'r person a fabwysiadwyd geisio eich olrhain. Ceir cofrestri cysylltiadau mabwysiadu sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn hwyluso cyswllt rhwng pobl a fabwysiadwyd pan fônt yn oedolion â'u perthnasau biolegol. Pan fydd rhiant biolegol ac oedolyn mabwysiedig ill dau wedi cofrestru, bydd y cofrestri cyswllt mabwysiadu yn hysbysu'r naill barti. Ni fydd y gofrestr gyswllt yn rhannu manylion cyswllt, y partïon fydd yn penderfynu a ydynt am gysylltu â hwy ar ôl cwnsela.

Gall pobl ifanc a fabwysiadwyd ac oedolion neu aelodau o'r teulu biolegol gysylltu neu

gael gwybodaeth o wefannau cyfryngau cymdeithasol ar y rhyngrwyd. Nid dyma'r modd gorau o sefydlu cyswllt oherwydd gall cyswllt i deuluoedd biolegol ac oedolion a fabwysiadwyd heb baratoi a heb gefnogaeth asiantaeth fabwysiadu beri gofid. Mae cyngor a chymorth ar gael am ddim gan wasanaeth cymorth mabwysiadu eich awdurdod lleol. Byddai cyngor a chymorth hefyd yn cael eu cynnig i'ch plentyn pe cysylltid â'r asiantaeth fabwysiadu ynghylch bod hyn am ddigwydd, er mwyn ceisio sicrhau bod pawb yn gallu meddwl beth fyddai orau i bawb dan sylw.

A allaf gysylltu â'm plentyn eto pan ddaw yn oedolyn?
Gallwch ofyn i asiantaeth cymorth mabwysiadu, asiantaeth fabwysiadu awdurdod lleol neu asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol penodol weithredu fel canolwr i chi ar ôl i'ch plentyn ddod yn oedolyn. Gallwch hefyd roi eich manylion ar y Gofrestr Cyswllt Mabwysiadu. Efallai y bydd amgylchiadau lle nad yw'r asiantaeth yn derbyn cais i hwyluso cyswllt, ac mae'n bwysig nodi mai dim ond os mai dyna y mae'r oedolyn mabwysiedig yn ei ddymuno y byddai cyswllt yn cael ei ailsefydlu.

Gwneud y penderfyniad
Mae'r penderfyniad a wnewch am ddyfodol eich babi mor bwysig fel na ddylech ruthro i'w wneud. Mynnwch yr holl gyngor y gallwch ei gael cyn i chi benderfynu a cheisio sicrhau bod hyn yn cynnwys cyngor cyfreithiol. Siaradwch â gweithiwr cymdeithasol eich plentyn os oes problem gyda thalu am hyn. Mae angen i chi fod yn siŵr eich bod yn gwneud y gorau i'ch plentyn fel y byddwch yn teimlo'n gyfforddus mai eich penderfyniad yw'r un iawn i'ch plentyn.

A fyddaf yn cael cymorth?
Cewch eich annog i weld gweithiwr mabwysiadu arbenigol i'ch cynorthwyo i wneud eich penderfyniad ond mae gwasanaethau ar gael hefyd i rieni biolegol ar ôl i'w plentyn gael ei fabwysiadu.

Mae llawer o asiantaethau sy'n darparu grwpiau cymorth a gweithwyr sy'n gwybod llawer am fabwysiadu. Gallwch ofyn i'r gweithiwr cymdeithasol am fanylion am hyn a gwasanaethau cymorth eraill sydd ar gael.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn rhoi cymorth i bawb sy'n ymwneud â mabwysiadu drwy gydol plentyndod plentyn a thu hwnt. Byddant yno i gynorthwyo os bydd unrhyw anawsterau'n codi yn ymwneud â chyswllt â'ch plentyn neu os oes gennych unrhyw ymholiadau o gwbl.

Fel rhiant biolegol, byddech yn gallu gofyn am gymorth ar unrhyw adeg. Un mater y mae llawer o bobl yn croesawu cymorth ag ef yw yr hyn i'w ysgrifennu mewn llythyr at eich plentyn mabwysiedig ac mae cymorth ar gael gyda hynny.

Atodiad 9a: **Gwybodaeth ar gyfer Tadau Geni**

Beth yn union yw mabwysiadu?
Mae mabwysiadu yn ffordd o ddarparu rhieni cyfreithiol newydd i blentyn a galluogi plentyn i ddod yn aelod cyfreithiol o deulu newydd am oes pan na allant aros o fewn eu teulu biolegol. Mae'n dod â'r berthynas gyfreithiol rhwng y plentyn a'r rhieni biolegol i ben yn barhaol.

Trefnir mabwysiadu gan asiantaethau mabwysiadu ond fe'u gwneir yn gyfreithiol rwymol gan y llys sy'n gwneud Gorchymyn Mabwysiadu. Ar ôl iddo gael ei ganiatáu, mae Gorchymyn Mabwysiadu yn derfynol ac ni ellir ei wrthod.

Sut gallaf gael rhagor o wybodaeth am fabwysiadu?
Yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir gan asiantaethau mabwysiadu, gellir gofyn am gyngor hefyd gan:

- Gweithwyr cymdeithasol o Adran Gwasanaethau Plant eich awdurdod lleol.
- Gweithwyr cymdeithasol mewn ysbytai sy'n gweithio gyda chlinigau mamolaeth.
- Gwefannau fel www.education.gov.uk; www.baaf.org.uk; www.adoptionuk.org

Sut mae mabwysiadu'n cael ei drefnu?
Os bydd mam eni yn penderfynu bod mabwysiadu'n iawn i'w phlentyn neu os yw am gael rhywfaint o help i'w ystyried ymhellach, bydd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr mabwysiadu arall yn treulio peth amser gyda hi i'w helpu i feddwl a siarad am yr hyn y mae mabwysiadu'n ei olygu, y prosesau, ac a allai unrhyw ddewisiadau eraill fod ganddi. Bydd hi hefyd yn cael cynnig cymorth gan weithiwr cymdeithasol sy'n annibynnol ar yr asiantaeth fabwysiadu.

Gall y paratoadau ar gyfer mabwysiadu ddechrau cyn i'r plentyn gael ei eni, fodd bynnag, ni fydd unrhyw beth yn cael ei drefnu yn bendant tan ar ôl yr enedigaeth. Bydd hi'n yn rhydd i newid ei meddwl tan yr adeg pan gaiff cydsyniad ei lofnodi i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, sydd fel arfer yn digwydd chwe wythnos ar ôl genedigaeth y plentyn.

Os bydd yn penderfynu parhau â mabwysiadu, bydd angen i chi, maes o law, roi rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch chi'ch hun, eich teulu ac iechyd eich teulu, er mwyn i'r mabwysiadwyr allu rhannu hynny gyda'r plentyn wrth iddo/iddi dyfu.

Fel tad y baban, oes rhaid i chi roi caniatâd hefyd?
Os oes gan dad biolegol y plentyn gyfrifoldeb rhiant (CRh) yna mae ei ganiatâd yn angenrheidiol er mwyn lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu. Os nad ydych yn siŵr a oes gennych gyfrifoldeb rhiant, fe fydd gennych os bydd unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol;

- Rydych yn briod â'r fam eni
- Rydych wedi cael eich enwi ar dystysgrif geni'r babi (os nad ydych yn siŵr am hyn, gallwch ofyn am gopi o'r dystysgrif geni)

- Neu os ydych wedi gwneud cais ers hynny ac wedi cael tystysgrif CRh

Os nad oes CRh gennych, nid oes angen eich caniatâd i leoli'r plentyn i'w fabwysiadu. Fodd bynnag, efallai y byddech yn dymuno gwneud cais am CRh, ac os caiff hyn ei ganiatáu, byddai gofyn i chi gydsynio i'r mabwysiadu.

Gallech ddewis tynnu eich cydsyniad i'r mabwysiadu yn ôl, ar unrhyw gam hyd nes y bydd cais am Orchymyn Mabwysiadu wedi'i wneud.

Efallai y bydd y gweithiwr cymdeithasol yn penderfynu ceisio cysylltu â chi, hyd yn oed os nad oes gennych CRh, fel y gall yr asiantaeth fabwysiadu gael rhywfaint o wybodaeth am eich ethnigrwydd, a'ch hanes meddygol chi a'ch teulu, i'w drosglwyddo i'r mabwysiadwyr a'r plentyn. I lawer o blant a fabwysiadwyd, mae croeso i unrhyw wybodaeth, hyd yn oed pa hobïau sydd gennych neu syniad ynghylch sut olwg sydd arnoch. Gofynnir i chi lofnodi i gytuno y gellir rhannu unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gennych gyda'r plentyn

Efallai nad ydych yn cytuno â chynllun mabwysiadu'r fam fiolegol ac efallai am fagu'r plentyn eich hun neu o fewn eich teulu eich hun. Os felly, a bod cyfrifoldeb rhiant gennych neu fwriad gennych i wneud cais amdano, bydd angen i'r asiantaeth fabwysiadu a'r llys wybod am hynny. Os nad ydych chi a'r fam fiolegol yn gallu cytuno, bydd yn rhaid i'r llys benderfynu a yw'n credu taw mabwysiadu neu fywyd gyda chi sy'n debygol o fod orau i'r plentyn yn yr hirdymor.

Os yw'r fam fiolegol yn briod â rhywun arall ond nid ei gŵr yw'r tad, bydd y gyfraith yn dal i ystyried y gŵr yn dad cyfreithiol ar y plentyn oni bai ei fod wedi llofnodi, neu fod y llys yn gwneud, datganiad fel arall. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid cael cydsyniad y gŵr i leoli ar gyfer mabwysiadu, ond bydd yr asiantaeth fabwysiadu hefyd eisiau, os yw'n bosibl, rhywfaint o wybodaeth amdanoch chi fel y gellir ei throsglwyddo i'r mabwysiadwyr ac i'r plentyn.

Pa fath o bobl fydd yn mabwysiadu fy mhlentyn?
Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn trafod gyda chi'r math o deulu rydych chi am i'ch plentyn gael ei fagu ynddo. Bydd y gofal mwyaf yn cael ei gymryd i ddod o hyd i deulu a fydd yn rhoi cartref diogel a chariadus i'ch plentyn. Bydd y person neu'r cwpl a ddewisir wedi bod drwy asesiad trylwyr i sicrhau y byddant yn gallu deall a chefnogi anghenion plentyn mabwysiedig gydol eu hoes. Dylech siarad â'r gweithiwr cymdeithasol am y posibilrwydd o gwrdd â'r teulu, os dymunwch, neu am fathau eraill o gyswllt megis cyfnewid llythyrau ac os cytunir i hynny, rhai ffotograffau. Bydd rhywun wedi siarad â'r mabwysiadwr(wyr) am bwysigrwydd sicrhau bod y plentyn yn deall ei fabwysiadu a'r opsiwn o gynnal rhywfaint o gyfathrebu â rhiant/rhieni biolegol eu plentyn.

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r babi gael ei eni?
Cyn i'r fam enedigol adael yr ysbyty, gofynnir iddi lofnodi ffurflen i gytuno i'r plentyn

gael mynd at ofalwyr maeth (nid ffurflen gydsyniad ar gyfer mabwysiadu yw hon). Yn y rhan fwyaf o achosion bydd y babi'n derbyn gofal gan ofalwr maeth dros dro hyd nes y byddwch chi a hithau yn llofnodi i gydsynio i leoli ar gyfer mabwysiadu pan fydd eich plentyn yn chwe wythnos oed; hyd at yr amser hwn, gallwch chi neu hi newid eich meddwl a gallai eich plentyn gael ei ddychwelyd atoch chi neu ati hi. Pe baech chi neu hi'n newid eich meddwl a bod gan yr Awdurdod Lleol unrhyw bryderon ynghylch dychwelyd y plentyn ac eisiau parhau â'r broses fabwysiadu, byddai angen iddynt wneud cais am Orchymyn Gofal Dros Dro a Gorchymyn Lleoli ac ysgrifennu datganiad yn egluro eu rhesymau'n glir.

Mae angen cytundeb gwasanaethau plant os yw mam y baban yn dymuno i'r babi gael ei leoli i'w fabwysiadu o dan chwe wythnos oed. Bydd yn rhaid iddi drafod hyn gyda'r gweithiwr cymdeithasol sydd wedi darparu cyngor annibynnol a gweithiwr cymdeithasol y plentyn. Gofynnir iddi lofnodi cytundeb ysgrifenedig. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â'r plentyn yn rheolaidd i wneud yn siŵr bod popeth yn mynd yn dda ac i gynnig cefnogaeth. Bydd hi, a chithau os gofynnwch amdani, yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eich plentyn.

Pan fydd eich babi yn chwe wythnos oed o leiaf
Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn trefnu i chi gael cyfweliad â swyddog Cafcass Cymru a fydd yn sicrhau eich bod yn deall beth sydd ynghlwm â mabwysiadu. Mae Cafcass Cymru yn sefydliad cwbl ar wahân i'r Awdurdod Lleol. Byddant yn gofyn i chi lofnodi dogfen ffurfiol yn cydsynio i leoli eich plentyn ar gyfer mabwysiadu, a gallech hefyd roi cydsyniad ymlaen llaw i Orchymyn Mabwysiadu gael ei wneud pan fydd y mabwysiadwyr yn gwneud cais amdano. Byddant am sicrhau eich bod yn deall yr hyn yr ydych yn ei lofnodi ac mai dyna yw eich dewis.

Os dymunwch, gallwch ch a/neu y fam fiolegol, fod yn rhan o'r broses o helpu i benderfynu pa fath o deulu y dylai eich plentyn gael ei fagu ynddo, a bydd yr asiantaeth fabwysiadu a'ch gweithiwr cymdeithasol yn gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i deulu sy'n bodloni eich dymuniadau ac anghenion eich plentyn. Fodd bynnag, bydd angen i'r asiantaeth fabwysiadu a'ch gweithiwr cymdeithasol roi anghenion eich plentyn yn gyntaf bob amser wrth ddewis teulu.

Unwaith y bydd y plentyn wedi'i leoli gyda mabwysiadwyr ac wedi byw gyda hwy am 10 wythnos, gallant wedyn wneud cais am Orchymyn Mabwysiadu (mewn rhai achosion mae'r mabwysiadwyr yn gwneud cais am Orchymyn Mabwysiadu fisoedd lawer ar ôl i'r plentyn fynd i fyw gyda nhw). Os ydych yn dymuno gwrthwynebu (peidio â chytuno â) gwneud y Gorchymyn Mabwysiadu unwaith y bydd cais wedi dechrau, bydd angen i chi ofyn i'r llys am ganiatâd i wneud hynny. Gall y llys roi ei ganiatâd os yw'n fodlon bod amgylchiadau wedi newid ers i chi roi cydsyniad i'ch plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu. Bydd yr asiantaeth yn darparu adroddiad i'r llys am amgylchiadau'r plentyn, ac os yw'r llys yn fodlon bod Gorchymyn Mabwysiadu er lles gorau'r plentyn, caiff y Gorchymyn Mabwysiadu ei roi.

Cewch eich hysbysu am y cais mabwysiadu a phryd a lle y caiff ei glywed, oni bai eich bod yn gofyn yn benodol am beidio â chael gwybod.

Alla i drefnu'r mabwysiadu fy hun?
Mae amgylchiadau lle gallwch wneud trefniant preifat ar gyfer lleoli eich plentyn ond byddai gofyn o hyd ar i'r Awdurdod Lleol ymchwilio i'r trefniant hwn. Mabwysiadu preifat fyddai hyn, sy'n gwbl wahanol a thu hwnt i gwmpas y daflen hon. Er mwyn amddiffyn y plentyn, rhaid i bob mabwysiadu arall gael ei drefnu gan asiantaeth fabwysiadu. Rhaid i'r holl orchmynion mabwysiadu gael eu rhoi gan Lys i fod yn gyfreithiol rwymol.

Beth os byddaf yn newid fy meddwl?
Ar ôl i hi neu chi lofnodi eich cydsyniad i'ch plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu, bydd eich hawliau i newid eich meddwl yn gyfyngedig ac efallai y cânt eu colli'n gyfan gwbl. Byddwch chi neu hi yn gallu tynnu eich cydsyniad yn ôl unrhyw bryd nes bod y bobl sydd am fabwysiadu eich plentyn yn dechrau cais mabwysiadu yn y llys. Os byddwch yn tynnu eich cydsyniad yn ôl ac yn dymuno i'ch plentyn gael ei ddychwelyd, bydd angen i chi roi gwybod i'r asiantaeth fabwysiadu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y bydd eich plentyn yn cael ei ddychwelyd atoch chi neu hi yn awtomatig. Os *nad* yw'r asiantaeth fabwysiadu wedi lleoli eich plentyn gyda darpar fabwysiadwyr ac yn cytuno y dylai eich plentyn gael ei ddychwelyd atoch, byddant yn dychwelyd y plentyn o fewn saith diwrnod. Os ydynt eisoes wedi lleoli'r plentyn gyda darpar fabwysiadwyr a'u bod yn cytuno y dylid dychwelyd eich plentyn atoch, byddant yn dychwelyd y plentyn o fewn pedwar diwrnod ar ddeg. Os yw'r plentyn o dan chwe wythnos byddant yn dychwelyd y plentyn i'r fam o fewn saith diwrnod.

Fodd bynnag, os yw'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn y dylai eich plentyn barhau i gael ei fabwysiadu, bydd yn rhaid iddo wneud cais am Orchymyn Lleoli, gan ofyn i'r llys am ganiatâd i leoli eich plentyn ar gyfer ei fabwysiadu. Pe bai hynny'n digwydd, byddai'n rhaid iddynt wneud eu rhesymau'n glir iawn i'r Llys a byddai'r Llys yn penodi gweithiwr proffesiynol annibynnol o Cafcass Cymru i ymgymryd â'r achos ac adrodd yn ôl am yr hyn fyddai orau i'r plentyn. Byddent yn ystyried yr amgylchiadau ac yn siarad â chi a'r darpar fabwysiadwyr. Byddent hefyd yn penodi cyfreithiwr i gynrychioli anghenion a hawliau'r plentyn ym mhroses y llys. Byddai'n rhaid i hyn oll ddigwydd cyn y gallai'r Llys wneud penderfyniad terfynol.

Pan fydd y bobl sydd am fabwysiadu eich plentyn wedi gwneud cais i'r llys am Orchymyn Mabwysiadu, ni fyddwch yn gallu gofyn i'ch plentyn gael ei ddychwelyd. Oni bai eich bod wedi dweud nad ydych am gael gwybod, byddwch yn cael gwybod pan fyddant yn gwneud eu cais ond bydd yn rhaid i chi ofyn i'r llys am ganiatâd i'w wrthwynebu. Bydd yn rhaid i chi ddangos i'r llys bod yr amgylchiadau wedi newid ers i chi roi eich cydsyniad i'ch plentyn gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu a bod gofyn i'r llys ystyried hynny er budd gorau'r plentyn.

A fydda i'n gweld fy mhlentyn eto?
Unwaith y byddwch wedi rhoi caniatâd i'r plentyn gael ei leoli gyda darpar fabwysiadwyr, efallai y bydd yn bosibl cysylltu â'ch plentyn drwy drefniant gyda'r

asiantaeth fabwysiadu neu drwy gael gorchymyn llys, ond ni fydd gennych hawl awtomatig i gysylltu. Bydd gennych hawl i wneud cais i'r llys am orchymyn i gael cyswllt â'ch plentyn ar unrhyw adeg hyd nes y rhoddir y Gorchymyn Mabwysiadu. Gall mabwysiadu weithiau olygu cyswllt parhaus rhwng y rhieni biolegol a'r teulu mabwysiadol, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy lythyr. Byddai angen cytuno ar unrhyw drefniadau rhyngoch chi a'r mabwysiadwyr, a byddai'r asiantaeth fabwysiadu fel arfer yn eu cefnogi.

Fel arfer, bydd yr Asiantaeth yn ceisio dod o hyd i deulu ar gyfer eich plentyn sy'n hapus i gael y math o gyswllt yr hoffech ei gael, cyn belled â bod hyn hefyd er lles gorau eich plentyn. Er na fyddai'n arferol i blentyn ifanc iawn gael cyswllt wyneb yn wyneb â'i rieni biolegol yn barhaus, bydd gweithiwr cymdeithasol eich plentyn yn trafod gyda chi gynllun cyswllt a fyddai'n diwallu anghenion eich plentyn. Gall y cyswllt sydd gennych â'ch plentyn newid dros amser yn dibynnu ar anghenion y plentyn.

A fydd fy mhlentyn yn cael gwybod amdana i?
Disgwylir i rieni mabwysiadol sicrhau bod eu plentyn mabwysiedig yn tyfu i fyny i ddeall eu bod wedi eu mabwysiadu a'u bod yn cael hyfforddiant a chymorth i wybod sut i wneud hyn. Mae gan blant mabwysiedig lyfr Stori Bywyd a ddarperir ar eu cyfer sy'n eu helpu i ddeall y stori pam iddynt gael eu mabwysiadu. Cewch gyfle i ddarparu gwybodaeth a lluniau ar gyfer hyn a bydd beth bynnag y teimlwch y gallwch ei rannu yn helpu eich plentyn mabwysiedig i ddatblygu ymdeimlad o'i wreiddiau.

Mae gan blant a fabwysiadwyd hefyd wybodaeth fanylach wedi'i pharatoi ar eu cyfer, a elwir fel arfer yn Llythyr Bywyd Diweddarach, ar gyfer pan fyddant yn hŷn ac efallai y bydd ganddynt fwy o gwestiynau. Gallwch siarad â'r gweithiwr cymdeithasol am ysgrifennu hwn eich hun os byddwch yn dewis gwneud hynny. Fel arall, bydd gweithiwr cymdeithasol yn paratoi hyn, gan esbonio pam y bu'n rhaid dewis teulu newydd ar eu cyfer. Efallai y byddwch hefyd am ddarparu storfa ar gyfer eich plentyn a fydd yn cael ei drosglwyddo i'r mabwysiadwyr ar gyfer eich plentyn.

A allaf ei gadw'n gyfrinach?
Cynghorir rhieni sy'n mabwysiadu i ddweud wrth blant o oedran cynnar eu bod wedi cael eu mabwysiadu. Wrth iddynt dyfu, mae'r rhan fwyaf o bobl a fabwysiadwyd yn chwilfrydig i wybod rhywbeth am eu cefndir. Yn y pen draw, eich penderfyniad chi fydd rhannu hyn.

Gall pobl a fabwysiadwyd gael eu tystysgrif geni wreiddiol pan fyddant yn 18 oed (16 yn yr Alban), ac os cawsoch eich cofrestru fel rhiant, bydd eich enw ar y dystysgrif. Gan ddefnyddio'r wybodaeth honno gallai'r person a fabwysiadwyd geisio eich olrhain. Ceir cofrestri cysylltiadau mabwysiadu sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn hwyluso cyswllt rhwng pobl a fabwysiadwyd pan fônt yn oedolion a'u perthnasau biolegol. Pan fydd rhiant biolegol ac oedolyn mabwysiedig ill dau wedi cofrestru, bydd y cofrestri cyswllt mabwysiadu yn hysbysu'r naill barti. Ni fydd y gofrestr gyswllt yn rhannu manylion cyswllt, y partïon fydd yn penderfynu a

ydynt am gysylltu â hwy ar ôl cwnsela.

Gall pobl ifanc a fabwysiadwyd ac oedolion neu aelodau o'r teulu biolegol gysylltu neu gael gwybodaeth o wefannau cyfryngau cymdeithasol ar y rhyngrwyd. Nid dyma'r modd gorau o sefydlu cyswllt oherwydd gall cyswllt i deuluoedd biolegol ac oedolion a fabwysiadwyd heb baratoi a heb gefnogaeth asiantaeth fabwysiadu beri gofid. Mae cyngor a chymorth ar gael am ddim gan wasanaeth cymorth mabwysiadu eich awdurdod lleol. Byddai cyngor a chymorth hefyd yn cael eu cynnig i'ch plentyn pe cysylltid â'r asiantaeth fabwysiadu ynghylch bod hyn am ddigwydd, er mwyn ceisio sicrhau bod pawb yn gallu meddwl beth fyddai orau i bawb dan sylw.

A allaf gysylltu â'm plentyn eto pan ddaw yn oedolyn?

Gallwch ofyn i asiantaeth cymorth mabwysiadu, asiantaeth fabwysiadu awdurdod lleol neu asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol penodol weithredu fel canolwr i chi ar ôl i'ch plentyn ddod yn oedolyn. Gallwch hefyd wneud cais i ychwanegu eich enw at y Gofrestr Cyswllt Mabwysiadu[18]. Efallai y bydd amgylchiadau lle nad yw'r asiantaeth yn derbyn cais i hwyluso cyswllt, ac mae'n bwysig nodi mai dim ond os mai dyna y mae'r oedolyn mabwysiedig yn ei ddymuno y byddai cyswllt yn cael ei ailsefydlu.

Gwneud y penderfyniad

Mae'r penderfyniad a wnewch am ddyfodol eich babi mor bwysig fel na ddylech ruthro i'w wneud. Cofiwch gael yr holl gyngor y gallwch gan gynnwys cyngor cyfreithiol cyn i chi wneud eich penderfyniad.

Mae angen i chi fod yn siŵr eich bod yn gwneud y gorau i'ch plentyn fel y byddwch yn teimlo'n gyfforddus mai eich penderfyniad yw'r un iawn i'ch plentyn.

A fyddaf yn cael cymorth?

Cewch eich annog i weld gweithiwr mabwysiadu arbenigol i'ch cynorthwyo i wneud eich penderfyniad ond mae gwasanaethau ar gael hefyd i rieni biolegol ar ôl i'w plentyn gael ei fabwysiadu.

Mae llawer o asiantaethau sy'n darparu grwpiau cymorth a gweithwyr sy'n gwybod llawer am fabwysiadu. Gallwch ofyn i'r gweithiwr cymdeithasol am fanylion am hyn a gwasanaethau cymorth eraill sydd ar gael.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn rhoi cymorth i bawb sy'n ymwneud â mabwysiadu drwy gydol plentyndod plentyn a thu hwnt. Byddant yno i gynorthwyo os bydd unrhyw anawsterau'n codi yn ymwneud â chyswllt â'ch plentyn neu os oes gennych unrhyw ymholiadau o gwbl a gallwch gysylltu â nhw ar unrhyw adeg ar ôl i'r Gorchymyn Mabwysiadu gael ei roi.

[18] Cofnodion mabwysiadu: Y Gofrestr Cyswllt Mabwysiadu - GOV.UK (www.gov.uk)

Atodiad 10: Datganiad nad wyf yn dymuno cael fy hysbysu o'r cais am Orchymyn Mabwysiadu ar gyfer fy mhlentyn

Adran 20 (4) Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002

Cyn llofnodi'r ffurflen hon, fe'ch cynghorir i geisio cyngor cyfreithiol ar gydsynio i fabwysiadu a'r effaith ar eich hawliau fel rhiant. Efallai y bydd cyngor cyfreithiol a ariennir yn gyhoeddus ar gael gan y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol. Gallwch gael gwybodaeth am hyn neu ddod o hyd i gyfreithiwr drwy CLS Direct ar www.clsdirect.org.uk neu drwy ffonio 0845 345 4 345

Enw'r plentyn:
Dyddiad Geni'r Plentyn:

Enw a Chyfeiriad yr Asiantaeth Fabwysiadu:

Rwyf wedi rhoi cydsyniad ymlaen llaw i Orchymyn Mabwysiadu gael ei wneud ar gyfer fy mhlentyn.

Rwy'n deall bod yn rhaid i mi gael gwybod gan y llys pan wneir y cais am Orchymyn Mabwysiadu oni bai fy mod yn rhoi'r hysbysiad hwn nad wyf yn dymuno cael gwybod am y cais.

Rwy'n hysbysu *nad* wyf yn dymuno cael gwybod am y cais.

Rwyf hefyd yn deall y caf dynnu'r hysbysiad hwn yn ôl ar unrhyw adeg drwy ddweud wrth yr Asiantaeth Fabwysiadu ac y caf wedyn wybod pan wneir y cais am y Gorchymyn Mabwysiadu.

Deallaf y bydd y llys yn fy hysbysu pan wneir y Gorchymyn Mabwysiadu.

Enw

Llofnod: ……..

Dyddiad .....

Atodiad 11: Cytundeb i leoli plentyn i'w fabwysiadu pan fo'r plentyn yn llai na 6 wythnos oed

Enw'r plentyn:

Dyddiad geni'r plentyn:

Rwyf i,

o

fel rhiant neu warcheidwad y plentyn yn datgan:

Rwy'n cytuno i'r asiantaeth fabwysiadu leoli'r plentyn i'w fabwysiadu gyda:

(a) y darpar fabwysiadwr(wyr) canlynol:

enw (neu gyfeirnod asiantaeth) (a)

enw (neu gyfeirnod asiantaeth) ; neu

(b) unrhyw ddarpar fabwysiadwyr a allai gael eu dewis gan yr asiantaeth.

Rwy'n deall:

- Gallaf hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu fy mod am dynnu fy nghytundeb yn ôl a gofyn i'm plentyn gael ei ddychwelyd ataf. Os gwnaf hynny, na chaf fi fy hun dynnu fy mhlentyn oddi ar y darpar fabwysiadwyr gan mai cyfrifoldeb yr asiantaeth fyddai hyn, sy'n gorfod cydymffurfio â'm cais o fewn saith diwrnod, oni bai bod cais yn cael ei wneud am un o'r gorchmynion canlynol ar gyfer neu yn ymwneud â'r plentyn:

    - gorchymyn amddiffyn brys neu orchymyn gofal o dan Ddeddf Plant 1989;

    - gorchymyn lleoli neu orchymyn mabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

- Rwy'n cadw cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

- Dim ond drwy gytundeb â'r asiantaeth neu drwy orchymyn llys y gallaf gael cyswllt â'r plentyn.

- Unwaith y bo'r plentyn yn chwe wythnos oed, bydd yr asiantaeth yn gofyn am fy/ein cydsyniad ffurfiol i'r plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu.

Enw a chyfeiriad yr asiantaeth fabwysiadu.

Enw gweithiwr cymdeithasol yr asiantaeth fabwysiadu a manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw amheuaeth am eich hawliau cyfreithiol, dylech gael cyngor cyfreithiol cyn llofnodi'r ffurflen hon

Llofnod

Dyddiad

Tyst

Dyddiad